



Adroddiad ar Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig

CYSUR 6/2021

**Dyddiad cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd:
22 Hydref 2024**

Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Adolygiad Ymarfer Estynedig Parthed:
CYSUR 6/2021**

Amlinelliad byr o'r amgylchiadau yn arwain at gynnal yr adolygiad

I'w cynnwys yma:

- *Cyd-destun cyfreithiol o'r canllawiau y mae'r adolygiad yn cael ei gynnal mewn perthynas â nhw*
- *Yr amgylchiadau a arweiniodd at gynnal yr adolygiad*
- *Y cyfnod amser a adolygwyd a'r rheswm dros hynny*
- *Llinell amser gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu fel atodiad*

Y cyd-destun cyfreithiol

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig gan CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â deddfwriaeth statudol a nodir yn adran 139 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*¹ a'r canllawiau cysylltiedig *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant*² (Llywodraeth Cymru, 2016).

Bodlonir y meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn o dan Bennod 7, *Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig*:

Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer plant estynedig yn unrhyw un o'r achosion canlynol yn ardal y Bwrdd lle gwyddys neu lle amheuir bod achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn wedi digwydd a lle mae'r plentyn:

- *Wedi marw; neu*
- *Wedi cael anaf parhaus a allai beryglu ei fywyd; neu*
- *Wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu'i ddatblygiad; ac*

roedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu roedd yn blentyn sy'n derbyn gofal (gan gynnwys plentyn o dan 18 oed sydd wedi gadael gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn –

- *Dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu*
- *Y dyddiad y nododd awdurdod lleol neu bartner perthnasol³ fod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad.*

¹ [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 \(SSWBA\)](#)

² [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant \(Llywodraeth Cymru, 2016\)](#)

³ Ystyr awdurdod lleol neu bartner perthnasol yw person neu gorff y cyfeirir ato yn [adran 28 o Ddeddf Plant 2004](#) neu gorff a gaiff ei grybwyll yn [adran 175 o Ddeddf Addysg 2002](#).

Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau ymarfer plant wedi'u nodi yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*.⁴

Pwrpas yr adolygiad yw nodi dysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion yn archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda phlentyn a'i deulu. Bwriad allbwn yr adolygiad yw cynhyrchu dysgu proffesiynol a sefydliadol a hyrwyddo gwelliant mewn arferion rhyngasiantaethol ac amddiffyn plant yn y dyfodol. Dylai gynnwys yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad, gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol ac ystyriaethau o ran yr hyn sydd angen ei wneud yn wahanol i wella ymarfer yn y dyfodol. (*Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016)*).⁵

Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig hwn yn **Atodiad 1**.

Yr amgylchiadau yn arwain at gynnal yr adolygiad

Mae'r Adolygiad Ymarfer Plant hwn yn ymwneud â dau unigolyn ifanc, y cyfeirir atynt fel Plentyn X a Phlentyn Y drwy gydol yr adroddiad hwn. Roedd y ddau unigolyn ifanc yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, a threuliodd pob un gyfnod o amser gyda gofalwr maeth Oedolyn Z. Roedd eu lleoliadau'n gorgyffwrdd am gyfnod o dri mis rhwng mis Mehefin a mis Medi 2017.

Roedd Plentyn X yn destun cymorth gan y gwasanaeth anabledd oherwydd anghenion gofal a chymorth brawd neu chwaer. Ym mis Ionawr 2017, yn un ar ddeg oed, cafodd Plentyn X ei letya o dan a.76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd hyn yn dilyn cyfnod ar y gofrestr amddiffyn plant oherwydd pryderon am ei les, am fod y rhiant wedi cael rhybuddiad gan yr heddlu am esgeuluso plentyn. Dechreuwyd ar weithrediadau gofal, ac wedyn gorchymynnwyd bod Plentyn X yn 'derbyn gofal'.⁶

Ym mis Chwefror 2017, rhoddwyd Plentyn X yng ngofal gofalwr maeth Oedolyn Z. Roedd hwn yn lleoliad brys a hwn oedd ei bedwerydd lleoliad yn syth iawn ar ôl ei gilydd.

Roedd atgyfeiriadau lleoliad gofal maeth a anfonwyd at asiantaethau maethu annibynnol wedi bod yn aflwyddiannus. Yn dilyn cynnydd cadarnhaol cynnar, ac o ystyried dymuniadau a theimladau Plentyn X, cafodd y lleoliad maeth presennol ei ymestyn o'i statws dros dro ac arhosodd Plentyn X yng ngofal gofalwr maeth Oedolyn Z. Ym mis Medi 2017, daeth lleoliad maeth Plentyn X gyda gofalwr maeth Oedolyn Z i ben yn dilyn anghydfod gyda Phlentyn Y (15 oed), a oedd wedi'i leoli gyda gofalwr maeth Oedolyn Z ers mis Mehefin 2017.

Arhosodd Plentyn Y, a oedd yn destun Gorchymyn Gofal Llawn, yng ngofal gofalwr maeth Oedolyn Z, a theimlwyd bod y lleoliad yn gadarnhaol. Yn 2020, ar ôl tair blynedd yng ngofal maeth Oedolyn Z, ac ar yr adeg pan oedd Plentyn Y yn agosáu at adael i fynd i'r brifysgol, roedd trefniadau ar waith mewn perthynas â threfniant Pan fydda i'n barod (WIR), fel y gallai Plentyn Y ddychwelyd i'r lleoliad rhwng tymhorau.

⁴ [Rheoliadau Byrddau Diogelu \(Swyddogaethau a Gweithdrefnau\) \(Cymru\) 2015](#)

⁵ [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant \(Llywodraeth Cymru, 2016\)](#)

⁶ Deddf Plant 1989 a.31

Ym mis Ebrill 2020, adroddodd Plentyn Y i diwtor dibynadwy yn y coleg fod gofalwr maeth Oedolyn Z wedi ymosod yn rhywiol arno y noson gynt. Rhoddwyd gweithdrefnau amddiffyn plant ar waith, gan arwain at gamau diogelu ar unwaith, a daethpwyd o hyd i leoliad gofal maeth amgen.

Arestiodd gofalwr maeth Oedolyn Z ac wedi hynny cafwyd yn euog o ymosod yn rhywiol ar blentyn, ac ymosodiad rhywiol ar blentyn gan unigolyn mewn swydd o ymddiriedaeth. Derbyniodd gofalwr maeth Oedolyn Z ddwy ddedfryd o ddeuddeng mis, i'w bwrw ar yr un pryd, a dedfryd gohiriedig am ddwy flynedd.

Ers dod yn ofalwr maeth yn 2008, roedd cyfanswm o saith ar hugain o blant a phobl ifanc wedi cael eu rhoi yng ngofal gofalwr maeth Oedolyn Z. Sbardunodd adroddiad cam-drin Plentyn Y gyfres o gyfweiliadau ymadael a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol gyda phlant a phobl ifanc perthnasol a oedd wedi cael eu maethu gan ofalwr maeth Oedolyn Z. Roedd hyn yn cynnwys Plentyn X, na wnaeth unrhyw adroddiadau ar yr adeg hon.

Ym mis Mawrth 2021, ac yn dilyn cyfres o gyfnodau 'ar goll / absennol o leoliad' (gan ofalwr maeth dilynol), dywedodd Plentyn X fod oedolyn maeth Oedolyn Z wedi ymosod yn rhywiol arno bedair blynedd ynghynt yn ystod ei gyfnod yn ei ofal. Gweithredwyd gweithdrefnau diogelu, ond bu oedi cyn galw am drafodaeth strategaeth a gweld Plentyn X. I ddechrau, penderfynodd Gwasanaeth Erllyn y Goron beidio â bwrw ymlaen â'r erlyniad, ond yn dilyn apêl gan yr heddlu a Phlentyn X, cafodd yr achos ei gynnal yn y llys. Yn dilyn achos llys, canfuwyd gofalwr maeth Oedolyn Z yn ddieuog o'r cyhuddiad yn ei erbyn.

Cyflwynwyd atgyfeiriad i'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant mewn perthynas â Phlentyn Y. Ar ôl penderfynu bod yr atgyfeiriad yn bodloni'r trothwy ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig, penderfynodd yr is-grŵp fod ystyried atgyfeiriad mewn perthynas â Phlentyn X wedyn hefyd yn bodloni meini prawf y trothwy. Felly mae'r adroddiad hwn felly yn un Adroddiad ar Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig mewn perthynas â dau blentyn.

Mae'n bwysig nodi mai Plentyn X a Phlentyn Y yw'r unig ddau blentyn yn yr Adolygiad Ymarfer Plant hwn, gan eu bod wedi gwneud datganiadau am achosion o gam-drin rhywiol a gyflawnwyd gan ofalwr maeth Oedolyn Z. Fodd bynnag, bydd cyfeiriadau at ddigwyddiadau a ddigwyddodd mewn lleoliad yn ymwneud â phlant eraill sy'n berthnasol i gyd-destun y digwyddiadau yn cael eu gwneud, lle ystyrir bod hyn yn berthnasol ac yn gymesur â'r themâu a'r materion a nodwyd fel rhai oedd yn digwydd yn y lleoliad yn ystod llinellau amser yr adolygiad priodol.

Iaith a therminoleg

Cydnabyddir bod achosion troseddol mewn perthynas ag adroddiadau o gam-drin Plentyn X a Phlentyn Y wedi arwain at ganlyniadau gwahanol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb iaith yn yr adroddiad hwn, bydd y geiriau "adroddiad" a "datganiad" yn cael eu defnyddio i ddisgrifio'r adroddiadau o gam-drin rhywiol a wnaed gan y ddau unigolyn ifanc sy'n destun yr adolygiad hwn.

Y cyfnod amser a adolygwyd a'r rheswm dros hynny

Cyfnod y llinell amser ar gyfer Plentyn X oedd 1 Ionawr 2017 hyd at 31 Mai 2018. Dewisodd y panel ymestyn y llinell amser o'r cyfnod arferol o ddeuddeng mis, er mwyn gallu ystyried lleoliad Plentyn X (mis Chwefror 2017 tan fis Medi 2017), y cyfnod ar ôl y lleoliad a'r adolygiad dilynol o

blant sy'n derbyn gofal, a dau adolygiad maethu blynyddol o addasrwydd mewn perthynas â gofalwr maeth Oedolyn Z (mis Ionawr 2017 a mis Mai 2018).

Cyfnod y llinell amser ar gyfer Plentyn Y oedd 15 Ebrill 2019 hyd at 15 Ebrill 2020, gan gwmpasu'r deuddeng mis yn arwain at ei adroddiad o gam-drin.

Mae'r ddwy linell amser unigol gyda'i gilydd yn cynnwys cyfnod o dair blynedd yn fras (2017 hyd at 2020), a roddodd gyfle i ystyried a oedd y ffactorau arfer a sefydliadol a amlygwyd yn ystod 2017–2018 yn parhau i fod yn amlwg ac yn ffactorau perthnasol yn ystod 2019–2020.

Cyd-destun deddfwriaethol, rheoleiddiol a pholisi⁷

Mae'r cyfnodau llinell amser yn pontio ac, ar adegau, yn cydio cyd-destunau gwahanol. Cyfeirir at y cyd-destun perthnasol i ymarfer ar y pryd drwy gydol yr adroddiad hwn.

Cyd-destun sefydliadol – gwasanaethau plant yr awdurdod lleol

Mae'n berthnasol nodi bod rhywfaint o linell amser yr adolygiad yn cwmpasu cyfnod pan oedd yr awdurdod lleol yn destun cynllun gwella, yn dilyn arolygiad a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn 2017:

“Nid yw'n ymddangos bod plant a phobl ifanc yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y trefniadau presennol ar gyfer cael mynediad at wasanaethau cymorth ym Mhowys. Roedd diffyg cynllunio ar gyfer asesu, gofal a chymorth ynghyd â dull anghyson o weithio yn unol â'r canllawiau camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac roedd y broses o reoli camfanteisio'n rhywiol a'r fframwaith asesu risg yn rhoi plant mewn perygl o niwed. Yn ogystal, nid oedd prosesau amddiffyn plant bob amser yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol gydag oedi cyn cynnal ymchwiliadau ac asesiadau a chwblhau ymweliadau statudol.” (AGC, 2018)

Ym mis Medi 2020, canfu AGC fod yr awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd sylweddol, a chafodd Cyngor Sir Powys ei dynnu o'r trefniadau monitro manylach. Darperir yr wybodaeth hon fel agwedd o gyd-destun sefydliadol i'r llinellau amser sy'n ffurfio ffocws yr Adolygiad Ymarfer Plant hwn.

⁷ *Deddf Plant 1989; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gynnwys Rhan 6 a'r Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya) a rheoliadau cysylltiedig, gan gynnwys Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015; Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018 a'r Cod Ymarfer a ddisodlodd Rheoliadau Maethu a Safonau Cenedlaethol 2003; Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018; Rhan 7 Diogelu a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5; Gweithdrefnau Diogelu Cymru Tachwedd 2019, a ddisodlodd Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008).*

Ymarfer a dysgu sefydliadol

Nodwch bob pwytnt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol) ynghyd ag amlinelliad byr o'r amgylchiadau perthnasol

Bod yn agored i niwed a datblygu naratif

Mae'n bwysig tynnu sylw o'r cychwyn cyntaf at y ffaith y cafodd y ddau blentyn / unigolyn ifanc eu nodi fel rhai a oedd yn agored i niwed o ganlyniad i'w profiadau blaenorol.

Roedd Plentyn X wedi bod yn agored i nifer o brofiadau niweidiol yn ystod ei blentyndod tra oedd yng ngofal ei rieni, roedd wedi cael diagnosis o anhwylder diffyg canolbwytntio a gorfywiogrwydd (ADHD), ac roedd ei anghenion gofal a chymorth cymhleth wedi'u nodi gan yr awdurdod lleol. Roedd y llinell amser yn dangos heriau ac anawsterau sylweddol a brofwyd gan Blentyn X drwy gydol ei amser mewn lleoliadau.

Yn ogystal â chael profiad o gam-drin yn ystod plentyndod, roedd Plentyn Y wedi profi profedigaeth a cholled sylweddol, ac roedd effaith barhaus a goblygiadau hyn yn gyffredin yn ystod cyfnod y llinell amser. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth bod yr agweddau sensitif hyn ac unrhyw oblygiadau a gododd mewn perthynas ag anghenion gofal a chymorth Plentyn Y wedi arwain at asesiad o ran llesiant, fel y byddid wedi disgwyl yn unol â pholisi'r adran.

Er gwaethaf llawer o elfennau andwyol, mae ffactorau amddiffynnol a gwydnwch, gan gynnwys cyflawniad addysgol, y gallu i greu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol, a meddu ar ddyheadau personol a phroffesiynol clir, wedi hybu ymdeimlad Plentyn Y o'i hun a'i ganlyniadau llesiant, a oedd yn amlwg yn ystod ei drafodaethau gyda'r adolygwyr.

Bydd cyfran sylweddol o blant a phobl ifanc, boed yn rhai sydd wedi cael eu 'lletya'⁸ neu'n 'derbyn gofal dan orchmynion',⁹ wedi cael 'profiadau niweidiol yn ystod plentyndod'.¹⁰ Pan fydd plentyn mewn lleoliad gofal arall, efallai bydd yn cael anawsterau wrth addasu i'r amgylchedd newydd, oherwydd efallai na fydd strategaethau ymdopi neu ymddygiad y dibynnwyd arnynt yn flaenorol yn briodol mwyach. Ni ellir diystyru'r her sy'n wynebu'r sawl dirprwyol sy'n rhoi gofal, nac effaith profiadau bywyd plentyn ac anghenion gofal a chymorth ar berthnasoedd a dynamig y teulu, yn enwedig pan fo plant neu bobl ifanc eraill wedi'u lleoli.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant sy'n derbyn gofal yn agored i gael eu cam-drin, eu niweidio a'u hesgeuluso gan fod eu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma parhaus yn eu gwneud yn agored i gamddeall a chamddechongli sefyllfaoedd a gweithredoedd, ac i beidio â gallu 'gwahaniaethu rhwng ymddygiad priodol gan bobl y gellir ymddiried ynddynt a pherthnasoedd neu weithgareddau niweidiol'.¹¹

Fodd bynnag, ni ddylai ymarferwyr gymryd yn ganiataol bod trawma blaenorol hysbys yn 'esbonio' neu'n 'lliniaru' ymddygiad neu bryder neu ddatganiad a fynegir.¹² Dylid dilyn pob esboniad posibl, gan gynnwys cam-drin gan ofalwr maeth neu ofalwr: gall cyfran fach o ofalwyr maeth gam-drin,

⁸ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a.76

⁹ Deddf Plant 1989, a.31

¹⁰ Polisi Llywodraeth Cymru 2021

¹¹ Ymchwiliad annibynnol i gam-drin plant yn rhywiol (IICSA) 2019

¹² Adolygiad Achos Difrifol, Bwrdd Iechyd Lleol Diogelu Plant 2014 1.20

esgeuluso a/neu niweidio plentyn yn eu gofal yn fwriadol. Mae Cleaver a Rose (2020) yn defnyddio'r term 'rhagdybiaeth o ddiogelwch' i amlygu bod angen i asiantaethau ac ymarferwyr 'feddwl yr hyn na ellir meddwl amdano, credu'r hyn sy'n anghredadwy, a dychmygu'r hyn na ellir ei ddychmygu'.

Gall y dybiaeth fod ymddygiad yn ganlyniad i drawma blaenorol arwain at ddatblygu naratif mewn perthynas â phlentyn neu unigolyn ifanc, a oedd yn amlwg yn yr adolygiad hwn o ran ymddygiadau Plentyn X. Cafwyd cyfres o achosion o bryder/adroddiadau o wrthdaro corfforol yn ymwneud â Phlentyn X yn yr ysgol yn ystod cyfnod y llinell amser. Nid yw wedi bod yn bosibl penderfynu a gafodd y digwyddiadau hyn eu hymdrin yn unol â'r polisiâu gwrth-fwlio a pholisiâu cysylltiedig (oherwydd dulliau cofnodi), neu a roddwyd digon o sylw i'w wendidau hysbys. Ni chadarnhawyd bod y digwyddiadau hyn wedi arwain at atgyfeiriadau uniongyrchol i'r awdurdod lleol, ac eithrio trafodaethau gyda'r gofalwr maeth.

Mae'n bwysig nodi na wnaeth Plentyn X adrodd yn uniongyrchol am ymosodiad yn erbyn gofalwr maeth Oedolyn Z tra oedd yn ei ofal. Fodd bynnag, mynegodd Plentyn X bryderon a gwnaeth ddatganiadau yn ymwneud â phlant / pobl ifanc eraill yn y lleoliad, yn ogystal â chyfoedion yn yr ysgol.

Yn y pryder cyntaf, a fynegwyd ym mis Mai 2017, mae gofalwr maeth Oedolyn Z yn nodi mewn cofnodion gofalwyr maeth bod Plentyn X wedi cael ei ddyrnu yn yr ysgol gan ddisgybl arall, a bod yr ysgol wedi codi amheuan ynghylch hanes Plentyn X o'r digwyddiad. Mae gofalwr maeth Oedolyn Z yn cofnodi bod Plentyn X wedi cyfaddef ei fod wedi dweud celwydd a bod y gofalwr maeth Oedolyn Z yn bwriadu gweithio gydag ef i ddweud y gwir.

Yr wythnos ganlynol, adroddwyd bod Plentyn X wedi cynhyrfu yn ystod y cyswllt a dywedodd wrth ei dad: 'roedd disgybl arall yn yr ysgol wedi ei ddyrnu ar ei drwyn a'i fwrw allan, ac yna wedi eistedd arno a cheisio ei dagu'. Mae gofalwr maeth arall a gofnodwyd ym mis Mehefin yn adrodd bod Plentyn X wedi ymweld â'r meddyg teulu ar ôl cael ei 'ddyrnu yn y pen yn yr ysgol'. Nid oes tystiolaeth bod y meddyg teulu wedi cymryd camau dilynol mewn perthynas â'r digwyddiad hwn.

Mewn cyfathrebiad addysg ym mis Medi 2017, adroddir bod '[gofalwr maeth Oedolyn Z] wedi cael anhawster gyda'r honiadau a wnaed yn ei erbyn ac [un o'r plant eraill] gartref gydag ef, a phob un ohonynt yn ddi-sail'. Mae defnyddio'r term 'di-sail', sydd ag ystyr penodol o fewn gweithdrefnau diogelu (sy'n awgrymu bod honiad wedi'i wrthbrofi yn dilyn ymchwiliad), yn gallu bod yn gamarweiniol, gan ei fod yn rhoi statws anghywir i'r datganiad ac yn awgrymu iddo gael ei ymchwilio a bod y canlyniad yn 'ddi-sail'.

Mae'n gadarnhaol bod yr ysgol wedi bod yn rhagweithiol wrth gyfathrebu â gofalwr maeth Plentyn X; fodd bynnag, nid yw'n glir a oedd y pryderon hyn yn cael eu sianelu'n fwy ffurfiol, yn unol â'r canllawiau perthnasol.¹³

¹³ 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002' 5.28–5.30 (Bwlio); 5.35–5.36 (Plant sy'n derbyn gofal) (Llywodraeth Cymru – diweddarwyd fis Mawrth 2022); 'Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir' 2.9 Bwlio (Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2019); 'Gwneud Gwahaniaeth: Canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion' (Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2017).

Mae'n ymddangos bod naratif yn datblygu o ran bod Plentyn X yn dweud celwydd yn ôl beth mae gofalwr maeth Oedolyn Z wedi ddweud. Mae cofnodion gofalwr maeth Oedolyn Z yn adrodd bod ymddygiad heriol, gan ei ddisgrifio fel "bod yn amharchus", "yn gwneud sylwadau awgrymog o sylwadau diniwed gan eraill", a dweud mewn un cofnod, "ai dyma'r [Plentyn X] go iawn sy'n dod i'r amlwg yn awr!". Nododd gofalwr maeth Oedolyn Z ei fod wedi cymryd cyfrifoldeb am fynd i'r afael â'r ymddygiadau hyn, drwy "annog [Plentyn X] i fod yn onest yn hytrach na dweud celwydd" ac "atgyfnerthu pwysigrwydd dweud y gwir".

Roedd yn amlwg o gofnodion asiantaethau ac o drafod yn y digwyddiad dysgu y credwyd mai dyma oedd patrwm ymddygiad ar gyfer y plentyn hwn. Yn hanesyddol, yn ystod cyfarfod ysgol a gynhaliwyd mewn perthynas â Phlentyn X ym mis Mehefin 2017, rhannodd ymarferwyr fod ei rieni, pan oedd Plentyn X yn byw gartref, wedi dweud wrtho am ddweud celwydd wrth y gwasanaethau cymdeithasol, gan nodi efallai nad yw Plentyn X yn deall pwysigrwydd dweud y gwir.

O ganlyniad i gysylltu'r naratif hwn â Phlentyn X, mae'n ymddangos bod rhai o'r digwyddiadau a ddisgrifiodd yn ystod ei gyfnod yn y lleoliad wedi'u lleihau ac, ar adegau, doedd neb yn ei gredu.

Mae darlunio plentyn / unigolyn ifanc fel bod yn annibynadwy yn cynyddu'r perygl y caiff ei gam-drin a'i ddiffrïo neu beidio â'i gredu, ac mae hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn adrodd os caiff ei niweidio. Yn eu hadolygiad o adolygiadau achosion difrifol o blant sydd wedi'u lleoli gyda rhoddwyr gofal amgen, mae Cleaver a Rose (2020) yn dod i'r casgliad bod hon yn strategaeth weithredol a bwriadol gan gyflawnwr i greu amgylchedd sy'n ffafriol i alluogi niwed neu gamdriniaeth ddigwydd.

Yn ogystal ag ynysu'r plentyn neu unigolyn ifanc, gall gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill dderbyn ac atgyfnerthu'r naratif, heb gwestiynu dim. 'Tuedd i gytuno' yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio cyfyngiadau rhagdybiaethau. Os bydd ymarferwyr yn cymryd yn ganiataol neu'n derbyn esboniadau neu resymau penodol am gyflwyniad neu ymddygiad plentyn neu unigolyn ifanc, mae perygl y gellir diystyru esboniadau amgen a mwy cywir.

Yn 'Adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol' (Hydref 2022), daeth yr Athro Alexis Jay ac eraill i'r casgliad bod gweithwyr proffesiynol yn parhau i fod yn 'rhy barod i gymryd ochr gofalwyr maeth ac i beidio â chredu'r plentyn'. Mae'n ymddangos bod gweithwyr proffesiynol wedi ymddiried yng ngofalwr maeth Oedolyn Z, a oedd yn cael ei ystyried yn ofalwr maeth da ac ymroddedig, ac roedd hyn yn atal gwrthrychedd neu chwilfrydedd proffesiynol ynghylch digwyddiadau yn y lleoliad, gan atgyfnerthu naratif cadarnhaol o ran gofalwr maeth Oedolyn Z, yn wahanol i'r naratif negyddol mewn perthynas â Phlentyn X.

Arferion da a nodwyd

- Cynigiwyd apwyntiadau CAMHS cyson a rheolaidd, roedd dogfennau iechyd hanesyddol plant sy'n derbyn gofal wedi'u lanlwytho ar system wybodaeth WCCIS, a chynhaliwyd cymorth rhagnodedig pan symudodd Plentyn X allan o'r ardal. Mae'r arfer da hwn yn dangos y camau cadarnhaol a gymerwyd i gefnogi Plentyn X o ystyried ei fod yn agored i niwed.
- Ymgwymerodd yr ysgol â chyfathrebu rheolaidd a rhagweithiol gyda phartneriaid eraill, y gofalwr maeth a'r Gwasanaethau Plant mewn perthynas â Phlentyn X.

- Cynhaliwyd asesiadau iechyd rheolaidd ar gyfer Plentyn Y. Cynhaliwyd un yn ystod cyfnod y llinell amser, a rhoddwyd cyngor ac arweiniad iechyd priodol.
- Mae tystiolaeth bod ymarferwyr a oedd yn ymwneud â diwallu ei anghenion gofal a chymorth yn rhoi ystyriaeth sensitif o'r materion a oedd yn effeithio ar Blentyn Y.

Adolygu safbwyntiau a myfyrdodau'r plant

- Mae Plentyn X eisiau i'r rhai sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc mewn gofal wrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, a pheidio â diystyru na'u credu dim ond oherwydd eu bod mewn gofal neu oherwydd eu bod yn meddwl eu bod yn dweud celwydd.
- Dywedodd Plentyn X wrth yr adolygwyr fod angen i ymarferwyr sy'n cefnogi pobl ifanc ystyried esboniadau amgen ar gyfer ymddygiad sy'n ymddangos, i wrando a *chlywed*, ac i 'wirio' sut mae'r plentyn neu'r unigolyn ifanc, a all olygu bod rhaid gofyn dro ar ôl tro.

Dysgu

Pob asiantaeth

- Mae'n amlwg bod diwallu anghenion gofal a chymorth Plentyn X, oherwydd nifer o ffactorau, yn heriol. Fodd bynnag, roedd potensial hefyd i ddatblygu 'naratif beio'r plentyn' mewn perthynas ag ef. Mae'n ymddangos bod rhagdybiaeth nad oedd y pryderon neu'r datganiadau a wnaed gan Blentyn X yn wir, a bod ei ymddygiadau yn ganlyniad i brofiadau bywyd hysbys o'r gorffennol. Gallai cwestiynu neu ailystyried y dybiaeth hon ar adegau allweddol fod wedi rhoi cyfle i ystyried posibiladau neu esboniadau eraill.

Addysg

- Awgrymir bod y model Ysgol Rithwir, nad oedd ar waith eto yn ystod cyfnod llinell amser Plentyn X, yn fforwm priodol i godi ymwybyddiaeth o wendidau diogelu plant sy'n derbyn gofal ac yn cael eu lletya, ac o'r cyfrifoldebau a nodir yn y canllawiau perthnasol (gweler troednodyn 12 uchod), ac i rannu'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad hwn.

Dymuniadau, teimladau a phrofiadau bywyd y bobl ifanc

Mae dyrannu eiriolwr annibynnol ar gyfer Plentyn X yn dangos arfer da; penodwyd gwarcheidwad plant CAF/CASS ar gyfer Plentyn X yn ystod yr achosion gofal a gynhaliwyd yn ystod cyfnod y llinell amser. Ni nodwyd cyfranogiad gwarcheidwad plant CAF/CASS tan y digwyddiad dysgu ac, yn anffodus, ni fu'n bosibl cael unrhyw farn na chyfraniadau gan y gwasanaeth hwn i lywio'r broses adolygu hon.

Er mai lleoliad dros dro oedd lleoliad Plentyn X gyda gofalwr maeth Oedolyn Z i fod, gan nad oedd yn bodloni ei holl anghenion gofal a chymorth, cafodd y lleoliad ei ymestyn. Un ffactor o blaid hyn oedd bod Plentyn X yn gwneud cynnydd da a'i fod wedi dweud wrth ei eiriolwr annibynnol, ddeg diwrnod ar ôl ei leoli, ei fod yn dymuno aros yno.

Er ei bod yn gadarnhaol bod sylw dyledus wedi'i roi i ddymuniadau a theimladau datganedig Plentyn X ac i farn yr eiriolwr annibynnol a'r gwarcheidwad plant, mae'n bosibl y byddai ymagwedd fwy trwyadl a thymor hwy wedi arwain at ymarfer cydbwysu mwy gwybodus rhwng dymuniadau a theimladau datganedig Plentyn X a'i lesiant a'i les yn y tymor hwy. Mae'n berthnasol nodi y gallai'r amserlen dynn a roddwyd gan amserlen yr achosion gofal fod wedi ychwanegu at yr angen i'r awdurdod lleol egluro trefniadau tymor hwy.

Mae'n berthnasol bryd hyn, fodd bynnag, i adleisio sylwadau cynharach yn yr adroddiad hwn ynghylch peidio â chredu Plentyn X ar adegau pan ddefnyddiodd ei lais i godi pryderon. Ni fydd dysgu hwn yn cael ei ailadrodd yma, ond mae'n allweddol i'w ystyried yng nghyd-destun casglu a chanoli'r broses o wneud penderfyniadau o amgylch llais yr unigolyn ifanc; tra oedd ei ddymuniadau a'i deimladau'n cael eu clywed, gan lywio penderfyniadau o ran iddo aros yn y lleoliad, nid oedd ei lais yn cael ei ystyried yr un fath yn ystod ei gyfnod yn y lleoliad, yn enwedig pan oedd yn gwrth-ddweud llais gofalwr maeth Oedolyn Z.

O ran Plentyn Y, mae tystiolaeth bod ymarferwyr yn ystyried materion sy'n effeithio arno'n sensitif wrth iddynt geisio diwallu ei anghenion gofal a chymorth, ac o ddefnydd cadarnhaol o eiriolaeth, gyda llais, dymuniadau a theimladau Plentyn Y yn ganolog i bob dim.

Arferion da a nodwyd

- Neilltuwyd eiriolwr annibynnol i Blentyn X.
- Roedd Plentyn X bob amser yn mynychu adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, roedd ei farn yn cael ei chofnodi, a darparwyd eiriolaeth annibynnol.
- Ymwelodd rheolwr y tîm â Phlentyn X yn bersonol yn dilyn cwyn a wnaed gan Blentyn X, gyda chamau dilynol wedi'u hysgrifennu yn manylu ar bryderon Plentyn X a'r broses ymateb.
- Mae tystiolaeth o ddefnydd cadarnhaol o eiriolaeth, gyda llais, dymuniadau a theimladau Plentyn Y yn ganolog – er enghraifft, yng nghynllun llwybr mis Awst 2019, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag ef.

Cynllunio lleoliadau a pharu plant â nhw

Drwy gydol amserlen y cyfnod adolygu cyfun o 2017–2020 a oedd yn cynnwys lleoliad Plentyn X a Phlentyn Y gyda gofalwr maeth Oedolyn Z, mae'n amlwg y lleolwyd nifer o blant eraill â hanes a phroffiliau cymhleth. Roedd y rhain yn cynnwys trefniadau Pan Fyddda i'n Barod, sef lletya pobl ifanc ar leoliad y tu hwnt i'w pen-blwydd yn 18 oed. Nodwyd y gallai rhai o ymddygiadau hysbys y plant hyn beri risg i blant iau neu blant sy'n fwy agored i niwed, ac aseswyd bod angen lleoliadau unigol a/neu leoliadau wedi'u clustnodi, gyda chyfyngiadau ar nifer y plant eraill y dylid eu lleoli gyda nhw. Gwnaethpwyd diwygiadau i statws cofrestru gofalwr maeth Oedolyn Z wythnosau cyn lleoliad Plentyn X, ac roedd hyn yn ei alluogi ef a phlant eraill i gael eu lleoli yn y cartref ochr yn ochr â lleoliadau presennol.

Nid yw'r adolygwyr wedi gweld tystiolaeth i gadarnhau bod asesiadau risg priodol cyn ac ar ôl lleoliad yn cael eu cynnal fel mater o drefn yn ôl yr angen, nid mewn perthynas â lleoliadau lluosog pobl ifanc â phroffiliau a hanesion cymhleth hysbys, nac yng nghyd-destun gofal ac anghenion

cymorth a nodwyd ar gyfer Plentyn X pan gaiff ei leoli yn 2017. Mae hyn yn cynnwys adolygiad gan y Panel Maethu, a ddylai fod wedi'i gynnal i ystyried Trefniant Pan Fyddda i'n Barod i adlewyrchu newid mewn amgylchiadau, gan gynnwys effaith bosibl y newid yn statws ar blant / pobl ifanc mewn lleoliad.

Plentyn X

I gydnabod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod Plentyn X a'i anghenion a nodwyd, mae'r ffurflen gais am leoliad maethu yn nodi bod angen gofalwr maeth 'sy'n gallu darparu lefel uchel o ofal, cymorth a goruchwyliaeth i Blentyn X'. Yn ogystal, roedd angen i Blentyn X aros yn yr ardal leol er mwyn iddo allu parhau yn ei ysgol bresennol a chynnal perthnasoedd a chysylltiadau pwysig â'r gymuned.

Yn adolygiad cychwynnol plentyn sy'n derbyn gofal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn cyfarwyddo y dylid dilyn lleoliadau asiantaeth faethu annibynnol. Mae'r adroddiad diogelu plant yn nodi nad oes tystiolaeth yn ffeil Plentyn X bod hyn wedi'i ddilyn; fodd bynnag, mae adroddiad y Gwasanaeth Maethu yn nodi 'chwiliadau helaeth ... yn fewnol ac yn allanol ... gan gysylltu gyda nifer o asiantaethau maethu annibynnol'.

Ymddengys fod y cyfathrebu uniongyrchol rhwng y gwasanaeth maethu a'r gwasanaethau plant wedi bod yn gyfyngedig, a heb fynediad agored at gofnodion maethu – fel sy'n wir ym mhob awdurdod lleol. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cael mecanweithiau i hwyluso rhannu / cael mynediad at wybodaeth briodol. Roedd yr ymarferwyr yn y Digwyddiad Dysgu ar ddeall mai'r rheswm am hyn oedd oherwydd cyfrinachedd a systemau anghydnaws. Mae'r angen i rannu gwybodaeth yn rhagweithiol ac yn rheolaidd rhwng ymarferwyr ac ar draws sefydliadau wedi'i ddogfennu'n dda¹⁴ ac mae'n dod i'r amlwg yn aml fel thema mewn dysgu sy'n codi o adolygiadau ymarfer. Byddai galw cyfarfodydd gyda gweithwyr proffesiynol neu gyfarfodydd cynllunio sy'n cynnwys holl weithwyr cymdeithasol plant sydd wedi'u lleoli a'r gweithiwr cymdeithasol maethu wedi sicrhau'r ddealltwriaeth a'r dull gweithredu ar y cyd oedd eu hangen i lywio cynllunio gofal ac i werthfawrogi'r broses o goladu pryderon.

Er bod cofnod gwybodaeth hanfodol wedi'i gwblhau mewn perthynas â lleoliad Plentyn X, byddai cwblhau dogfen baru fanylach wedi sicrhau ystyriaeth o anghenion gofal a chymorth y bobl ifanc oedd eisoes wedi'u lleoli. Roedd lleoliad Plentyn X gyda gofalwr maeth Oedolyn Z o fewn telerau cymeradwyo cofrestriad maethu'r gofalwr maeth, ac roedd yr adolygiad diweddaraf o addasrwydd gofalwr maeth yn cynghori paru gofalus wrth leoli plentyn neu unigolyn ifanc arall gyda'r ddau unigolyn ifanc yn y lleoliad.

Yn 2017, roedd yn amlwg bod lleoliadau yn newid yn aml ar aelwyd gofalwr maeth Oedolyn Z. Roedd lleoliad Plentyn Y gydag Oedolyn Z ym mis Mehefin 2017 yr ail leoliad a wnaethpwyd o fewn cyfnod o dri diwrnod ar ddeg. Gadawodd plant eraill yn y cartref y lleoliad heb hyn gael ei gynllunio am resymau sy'n parhau i fod yn aneglur, a gwnaed datganiadau gan blant eraill bod gofalwr maeth Oedolyn Z yn ymddangos yn feddw i'r graddau yr oedd wedi llewygu wrth ofalu am y plant.

Lleolwyd cyfanswm o wyth o bobl ifanc am gyfnodau byr yn ystod cyfnod adolygu Plentyn X, gydag wyth newid cymeradwyaeth dros dro. Nid yw'n glir a oedd prosesau trylwyr ar waith o ran paru er

¹⁴ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant: Canllaw anstatudol ar gyfer ymarferwyr (2019)

mwyn rhoi ystyriaeth ddigonol i anghenion cymhleth hysbys y bobl ifanc eraill a oedd wedi'u lleoli. Nid yw gwybodaeth o adolygiad blynyddol gofalwr maeth Oedolyn Z yn manylu ar sut i reoli'r gwahanol anghenion unigol ac unrhyw risgiau cysylltiedig.

Mae'r uchod yn portreadu dull adweithiol o gynllunio lleoliadau heb y gwaith rhagweithiol y disgwylir ar gyfer rheoli a pharu lleoliadau, asesu risg, a dadansoddi digwyddiadau a'u goblygiadau; nid i'r adnodd yn unig ond, yn bwysicaf oll, i'r plant a'r unigolyn (unigolion) ifanc o fewn y lleoliad, yr oedd yr awdurdod lleol yn arfer dyletswyddau a chyfrifoldebau rhianta corfforaethol statudol mewn perthynas â nhw.

O'r pum unigolyn ifanc yn y lleoliad maeth yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin 2017 a mis Medi 2017, roedd diwedd lleoliad Plentyn X y trydydd diwedd heb ei gynllunio, unwaith eto wedi'i sbarduno gan heriau o ran rheoli ymddygiadau.

Mae cyfeiriadau at gyfarfod amharu yn dilyn ymadawiad Plentyn X o'r lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl gwirio a gynhaliwyd y cyfarfod hwn ai peidio, oherwydd gwybodaeth anghyson gan amrywiaeth o ffynonellau. Mae cyfeiriad at benderfyniad ym mis Tachwedd 2017 y dylai Plentyn X gael ei leoli ar ei ben ei hun mewn lleoliadau dilynol.

Mae adolygiad Cleaver a Rose (2020) o Adolygiadau Achosion Difrifol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd wedi'u lleoli gyda gofalwyr amgen yn berthnasol yn hyn o beth. Maent yn dod i'r casgliad bod methu â deall pa mor agored i niwed yw plentyn / unigolyn ifanc sy'n derbyn gofal yn gyffredin, ac nad yw asesu a pharu bob amser yn ystyried anghenion gofal a chymorth cymhleth pobl ifanc. Arweiniodd hyn at 'ddull belt cludo ar gyfer lleoliadau' wedi'i arwain gan adnoddau yn hytrach nag anghenion, cysyniad y gellid ei gymhwyso i'r newidiadau aml sy'n amlwg ar aelwyd gofalwr maeth Oedolyn Z.

Mae'n anodd pennu pa blant / pobl ifanc oedd yn cael eu lleoli ar unrhyw adeg benodol, ac a oedd telerau cymeradwyo'r gofalwr maeth, gan gynnwys eithriadau, yn adlewyrchu'n gyson y plant / pobl ifanc a leolwyd. Ceir ymdeimlad bod y telerau cymeradwyo yn cael eu diwygio i adlewyrchu cyfansoddiad lleoliadau sy'n newid yn barhaus a'r bobl ifanc sydd wedi'u lleoli, yn hytrach na bod y telerau cymeradwyo yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer lleoliadau priodol.

Er enghraifft, mae eithriad maethu i alluogi lleoli pedwar o blant / unigolion ifanc yn cwmpasu cyfnod o bum niwrnod ym mis Mehefin 2017. Roedd hwn yn 'gytundeb llafar', gyda'r ddogfennaeth wedi'i llofnodi gan Benderfynwr yr Asiantaeth ym mis Tachwedd 2017, ac nid yw'n glir a gafodd yr holl newidiadau cymeradwyo dros dro eu cyflwyno neu eu hadrodd i'r panel maethu. Nid oes unrhyw gofnod yr ymgynghorwyd â gweithwyr cymdeithasol nac Swyddogion Adolygu Annibynnol y plant / pobl ifanc a leolwyd ynghylch y cynnig hwn (fel y disgwyliid).

Byddai sicrwydd ansawdd mwy cadarn wedi arwain at archwilio meysydd allweddol, gan gynnwys pryderon blaenorol, y rhesymeg dros leoliadau seibiant a'r cynnydd yn y niferoedd chwe mis yn unig ar ôl y penderfyniad blaenorol, a sut mae'r newidiadau hyn yn cael eu cysoni â'r cyngor ar gyfer paru gofalus.

Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau bod lleoliadau'n diogelu ac yn hyrwyddo llesiant y plentyn ac yn diwallu ei anghenion fel y nodir yng nghynllun gofal a chymorth Rhan 6 y plentyn (a adlewyrchir yn y cynllun lleoli). Rhaid iddynt hefyd sicrhau mai'r lleoliad yw'r un mwyaf addas o ran

yr holl amgylchiadau, a bod y lleoliad arfaethedig yn gyson â thelerau cymeradwyo'r gofalwr maeth.¹⁵

Mae asesiad cadarn o anghenion gofal a chymorth fel yr adlewyrchir yng nghynllun gofal a chymorth¹⁶ y plentyn / unigolyn ifanc yn sicrhau proses baru gwbl wybodus. Dylai'r cynllun lleoli¹⁷ adlewyrchu'r cynllun gofal a chymorth a chael ei gefnogi gan gytundeb gofal diogel ac asesiad risg addas i'r diben.¹⁸

Mae adnoddau cyfyngedig a diffyg dewis o leoliadau yn amlygu'r dyfarniadau proffesiynol anodd sydd eu hangen i gydbwyso amrywiadau cymhleth wrth gynllunio gofal a lleoliadau. Caniateir lleoliadau brys am hyd at chwe diwrnod, drwy eithriad â therfyn amser cyfyngedig i delerau cymeradwyo'r gofalwr maeth y cytunwyd arnynt, ar y sail bod: 'gan y gofalwr y gallu i ddiwallu anghenion y plentyn, gan ystyried anghenion a theimladau unrhyw blant eraill yn y cartref'.¹⁹

Plentyn Y

Roedd Plentyn Y wedi bod mewn lleoliad ers mis Mehefin 2017, tua 22 mis cyn dechrau cyfnod llinell amser yr adolygiad. Roedd Plentyn X eisoes yn y lleoliad pan gafodd Plentyn Y ei leoli, ond nid yw'n ymddangos y ceisiwyd barn gweithiwr cymdeithasol Plentyn X fel rhan o gynllunio lleoliad Plentyn Y, fel y byddai wedi'i ddisgwyl o ran arfer paru cadarn. Hefyd, nid oedd ffurflen baru Plentyn Y yn rhoi ystyriaeth i'r bobl ifanc eraill yn y lleoliad, ac nid oedd ychwaith yn adlewyrchu'r holl faterion perthnasol a oedd yn arwyddocaol o ran gofal diogel.

Yn ystod cyfnod llinell amser Plentyn Y (o fis Ebrill 2019 ymlaen), er i drefniant Pan Fydda i'n Barod arall ddod i ben heb ei gynllunio, yn gyffredinol mae lleoliadau i'w gweld yn fwy detholus, o ran anghenion addysgol Plentyn Y.

Arferion da a nodwyd

- Ymdrechodd y gwasanaeth addysg i gadw lle Plentyn X ar gofrestr yr ysgol er mwyn cefnogi cysondeb iddo, gyda'r dyhead i gynnal hyn yn ei leoliad hirdymor.
- Cynhaliodd y gwasanaeth maethu chwiliadau helaeth am leoliad maethu a oedd yn cyfateb yn briodol, gan gynnwys asiantaethau maethu annibynnol, wedi'i ategu gan broffil cadarnhaol wedi'i ddiweddarau o Blentyn X.

Dysgu

- Mae natur y gweithgarwch cynllunio lleoliad yn ystod y cyfnod llinell amser yn dangos yn glir yr angen i sicrhau bod cynllunio lleoliad yn cael ei wneud gan roi ystyriaeth ddyledus i anghenion y plentyn / unigolyn ifanc, pawb sydd wedi'u lleoli ar hyn o bryd,

¹⁵ Mae lleoli plant a phobl ifanc gyda gofalwr maeth yn cael ei reoli gan Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 6 o'r Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya).

¹⁶ Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, Rheoliad 5 ac Atodlen 2

¹⁷ Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, Rheoliad 10 ac Atodlen 3

¹⁸ E.e. Adams, CoramBAAF (2021)

¹⁹ Rhan 6 y Cod Ymarfer, paragraff 171

ac aelodau'r cartref, er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei arwain gan anghenion yn hytrach nag adnoddau.

Monitro ac adolygu lleoliad y plentyn

Mae rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth a rheoliadau²⁰ ac mae'n ganolog i fonitro ac adolygu lleoliadau. Dylid hysbysu'r Swyddog Adolygu Annibynnol am unrhyw newid sylweddol yn amgylchiadau'r plentyn, gan gynnwys pryderon diogelu sy'n ymwneud â'r plentyn, a cheisio ei farn mewn perthynas ag unrhyw newidiadau a allai effeithio ar y plentyn neu'r unigolyn ifanc.

Fodd bynnag, nid yw'r adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal yn cymryd lle gweithdrefnau diogelu:

'Mae ffocws adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal ar gynllunio gofal, nid ar reoli risg a chynllunio diogelwch. Ni chaiff materion risg a diogelu eu trafod fel mater o drefn, ac nid yw'r grŵp amlasiantaethol llawn wedi'i gynnwys' (Cleaver a Rose, 2020).

Dylid ystyried unrhyw newid arfaethedig yng nghynllun y plentyn mewn adolygiad, a rhaid hysbysu'r Swyddog Adolygu Annibynnol am unrhyw fethiant arwyddocaol i weithredu penderfyniadau adolygu neu unrhyw newid arwyddocaol mewn amgylchiadau sy'n digwydd ar ôl yr adolygiad sy'n effeithio ar y trefniadau hynny.²¹

Roedd agweddau cadarnhaol ar arfer yn cynnwys cysondeb y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystod y cyfnod llinell amser, gyda Swyddog Adolygu Annibynnol a oedd hefyd wedi cadeirio Cynadleddau Amddiffyn Plant perthnasol a gynhaliwyd yn flaenorol. Mynychodd Plentyn X y mwyafrif o'i adolygiadau plentyn sy'n derbyn gofal, a chafodd ei ddymuniadau a'i deimladau eu canfod a'u cefnogi mewn adolygiadau gan eiriolwr annibynnol. Fodd bynnag, nid oedd ymweliadau statudol â Phlentyn X ac adolygiadau plant sy'n derbyn gofal yn cydymffurfio'n gyson â'r ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol. Ymgwymerwyd â'r rhain gan sawl gweithiwr cymdeithasol gwahanol, a goruchwyliwyd ei amser teuluol gydag aelodau o'i deulu biolegol gan bedwar goruchwyliwr cyswllt gwahanol. Yn ogystal, nid oedd newidiadau i'w gynllun gofal bob amser yn cael eu cadarnhau gan y Swyddog Adolygu Annibynnol, ac mae'n ymddangos mai ychydig iawn o oruchwyliaeth a fu gan y gweithiwr cymdeithasol yn ystod lleoliad Plentyn X, ac roedd y 'dystiolaeth o oruchwyliaeth gan reolwyr yn brin iawn'.

Roedd gan Plentyn Y Swyddog Adolygu Annibynnol sefydlog a chyson am ddwy flynedd a hanner. Roedd yr un Swyddog Adolygu Annibynnol yn gyfrifol am frodyr a chwiorydd Plentyn Y, a oedd yn sicrhau trosolwg a gwell dealltwriaeth o anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a'r grŵp. Cymeradwyodd y Swyddog Adolygu Annibynnol newidiadau yn y trefniadau cyswllt a chyfarfu â Phlentyn Y cyn ei Adolygiadau Cynllun Llwybr, yr oedd Plentyn Y wedi eu mynychu. Cynhaliwyd yr

²⁰ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a.99–102; Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion 2015; Cod Ymarfer Rhan 6, Plant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal ac sy'n Cael eu Lletya; Protocol Swyddog Adolygu Annibynnol rhwng CAF/CASS Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru (2018); Safonau Ymarfer a Chanllawiau Arfer Da: Adolygu a Monitro Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 Plentyn neu Unigolyn Ifanc (AFA / Llywodraeth Cymru).

²¹ Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, Rheoliad 43

adolygiadau o fewn amserlenni ac roeddent yn seiliedig ar ganlyniadau, gan ddynodi camau gweithredu ac amserlenni y gellir eu priodoli.

Mae Adroddiad Adolygu'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn cynnwys y datganiad, 'Mae lleoliad Plentyn Y gyda [gofalwr maeth Oedolyn Z] wedi bod yn ardderchog.' Mae'r awdurdod lleol wedi mynegi, yn ei farn ef, y dylai'r Swyddog Adolygu Annibynnol gyfeirio at asesiadau'r gweithwyr cymdeithasol, yn hytrach na gwneud asesiad uniongyrchol heb gymhwyso am ansawdd y lleoliad. Mae'r pwyntiau dysgu hyn a nodwyd yn ddefnyddiol gan y gwasanaeth yn enghraifft dda o ddysgu cynnar yn cael ei nodi a'i roi ar waith.

Arferion da a nodwyd

- Roedd Adroddiad Dadansoddi Diogelu Plant yn dangos bod lefel uchel o gyfathrebu rhwng y tîm plant a'r gofalwr maeth yn ystod lleoliad Plentyn X, a chyda'r teulu biolegol, gyda lefel uchel o gyswllt dan oruchwyliaeth.
- Roedd cymorth cyson gan weithiwr cymdeithasol goruchwylio a rheolwr tîm yn ystod cyfnod lleoliad Plentyn X, ynghyd â chofnodion dyddiadur wythnosol rheolaidd, wedi'u cydlofnodi gan y gweithiwr cymdeithasol goruchwylio a'u rhannu â gweithiwr cymdeithasol Plentyn X.
- Cafodd newidiadau i gynllun gofal Plentyn Y eu cadarnhau gan y Swyddog Adolygu Annibynnol.

Dysgu

Gwasanaeth Swyddog Adolygu Annibynnol

- Rhaid i'r gwasanaeth Swyddog Adolygu Annibynnol archwilio ymweliadau statudol a rhoi gwybod am ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau.
- Rhaid i'r gwasanaeth Swyddog Adolygu Annibynnol archwilio a yw newidiadau i gynllun gofal y plentyn yn cael eu cadarnhau gan y Swyddog Adolygu Annibynnol.
- Dylai Swyddogion Adolygu Annibynnol ddefnyddio asesiadau gweithwyr cymdeithasol i gefnogi a llywio asesiadau o leoliadau.

Addas ar gyfer maethu / addasrwydd parhaus a goruchwylio'r gofalwr maeth

Cymeradwywyd gofalwr maeth Oedolyn Z a'i aelwyd fel 'addas i faethu'²² yn 2008, ac roedd cyfanswm o saith ar hugain o blant / pobl ifanc wedi'u lleoli â nhw dros gyfnod o ddeuddeng mlynedd. Nid yw'r Adolygiad Ymarfer Plant hwn yn ystyried gyrfa faethu gofalwr maeth Oedolyn Z yn ei chyfanswm, gan fod yr ystyriaeth wedi'i chyfyngu i'r cyfnodau llinell amser o fis Ionawr 2017 tan fis Mai 2018 (Plentyn X) ac o fis Ebrill 2019 tan fis Ebrill 2020 (Plentyn Y).

²² Yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003, Rheoliad 27 a Rheoliad 28

Ar ôl y gymeradwyaeth gychwynnol hon, byddai adolygiadau blynyddol²³ wedi'u cynnal i benderfynu a oedd y gofalwr maeth a'i aelwyd yn parhau i fod yn 'addas', a bod telerau'r gymeradwyaeth yn parhau i fod yn briodol.²⁴ Byddai unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau a/neu bryder ynghylch addasrwydd y gofalwr maeth neu'r aelwyd yn y cyfamser yn golygu bod angen adolygiad cynharach o addasrwydd. Rhaid cyflwyno'r adolygiad cyntaf i'r panel maethu, y mae ei argymhelliad yn llywio penderfyniad Penderfynwr yr Asiantaeth. Rhaid i gadeirydd y panel maethu fod yn annibynnol ar y gwasanaeth maethu.²⁵

Roedd gan adolygiad mis Ionawr 2016 gofrestrriad cyfyngedig i'r ddau unigolyn ifanc yn y lleoliad.

Roedd adolygiad mis Ionawr 2017 wedi ymestyn y cofrestrriad i dri o blant, gyda chyfarwyddiadau clir i baru'n ofalus â'r ddau blentyn / unigolyn ifanc a oedd wedi'u lleoli.

Roedd adolygiad blynyddol mis Mai 2018 yn bedwar mis yn hwyr ac, oherwydd bod y gweithiwr cymdeithasol goruchwylio wedi newid, nid oedd yn cwmpasu cyfnod lleoliad Plentyn X (mis Chwefror tan fis Medi 2017) o gwbl, pan amlygwyd llawer o bryderon. O ganlyniad, ni hysbyswyd yr adolygiad hwn yn llawn a dylai fod wedi arwain at ohiriad panel i gael rhagor o wybodaeth. Roedd argymhelliad y panel o addasrwydd parhaus wedyn yn sail i gymeradwyaeth Penderfynwr yr Asiantaeth.

Roedd sawl digwyddiad a ddylai fod wedi sbarduno'r panel maethu i gynnal asesiad cynnar o addasrwydd parhaus ac ystyriaeth ffurfiol (manylir yn yr adran nesaf o dan y **Continwrm pryderon**); nid oedd y digwyddiadau hyn bob amser yn cael eu cynnwys mewn adolygiadau dilynol o addasrwydd. Dylai rhai o'r digwyddiadau fod wedi cael eu hystyried yn unol â'r gweithdrefnau diogelu perthnasol.²⁶

Mae'r awdurdod lleol yn gweithredu dau banel maethu, sef 'prif' banel maethu a 'phanel adolygu blynyddol gofalwyr maeth', lle cyflwynir adolygiadau blynyddol nad oes angen eu hystyried gan y prif banel neu'r panel maethu 'llawn'. Mae'r panel 'adolygu' hwn yn cynnwys cadeirydd y panel (cadeirydd annibynnol y prif banel maethu), cynghorydd panel (rheolwr tîm) a chymerwr nodiadau'r panel. Cynhelir panel maethu llawn sy'n cynnwys rolau dynodedig ac aelodau panel annibynnol, yn unol â rheoliadau paneli maethu, ar gyfer pob asesiad newydd a chymeradwyaeth newydd ac unrhyw adolygiadau lle bu newid sylweddol mewn amgylchiadau neu adroddiad/cwyn/pryder am safon y gofal.

Holodd y gwasanaeth maethu o fewn y broses adolygu annibyniaeth y panel adolygu blynyddol gofalwyr maeth presennol ac argymhellwyd adolygiad o aelodaeth a swyddogaeth y panel hwn. Mae'r adolygwyr yn cytuno â'r argymhelliad hwn fel modd o sicrhau cadernid, gan ystyried rôl hollbwysig y panel maethu wrth sicrhau lles a llesiant plant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu lletya. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod mecanwaith yn ei le i sicrhau bod pob adolygiad yn cael ei gyfeirio at y 'panel maethu' priodol i'w ystyried.

²³ O dan Reoliadau Maethu 2003 neu Reoliadau Paneli Maethu 2018, Rheoliad 8 a Rheolaid 9, a oedd yn dilyn

²⁴ Rheoliadau Maethu 2003, Rheoliad 29(4)(6):Rheoliadau Paneli Maethu 2018, Rheoliad 8 a Rheolaid 9

²⁵ Rheoliadau Paneli Maethu 2018, Rheoliad4(1)(a)

²⁶ 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, Rhan 3, 'Y Broses Amddiffyn Plant', Rhan 4.3.2. 'Honiadau o gam-drin yn erbyn gofalwr maeth'

Continwwm pryderon

Roedd yr amserlenni a oedd ynghlwm wrth yr adolygiad hwn yn manylu ar nifer o bryderon mewn perthynas â gweithgarwch yn y lleoliad, a fydd yn cael eu hamlinellu isod.

Ymwelwyr â'r lleoliad

Roedd nifer o unigolion wedi ymweld a/neu aros yn y lleoliad heb i wasanaethau ddeall hyn yn llawn, gan arwain at ddarlun anghyflawn o'r cartref ac o brofiadau bywyd beunyddiol y plant a'r bobl ifanc a leolwyd yno. O fewn y cyd-destun hwn ac yn ystod y cyfnod hwn, daeth nifer o bryderon a digwyddiadau i'r amlwg o fewn y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys datganiadau a wnaed gan blant mewn perthynas â gweithredoedd plant eraill yn y lleoliad, cwestiynau difrifol ynghylch gofal a threfniadau goruchwyllo gofalwyr maeth Oedolyn Z o'r plant a'r bobl ifanc yr oedd yn gyfrifol amdanynt yn y cartref, a phobl amhriodol ac heb eu hawdurdodi oedd yn ymweld â'r cartref.

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r llinellau amser ac a ddadansoddwyd gan yr adolygwyr a'r panel wedi nodi patrwm ymddygiad clir gan ofalwr maeth Oedolyn Z, a diffyg gweithredu gan dîm maethu'r awdurdod lleol, lle roedd gofalwr maeth Oedolyn Z yn lleihau a diystyru'r pryderon a'r digwyddiadau. Cafodd ei safbwyntiau, ei farn a'i adroddiad o ddigwyddiadau eu credu cyn safbwyntiau'r plant, a doedd dim digon o gwestiynau a chwilfrydedd proffesiynol, ac ni chychwynwyd gweithdrefnau diogelu pan ddylent fod wedi cael eu rhoi ar waith.

Er enghraifft, mewn un digwyddiad lle mae Plentyn X yn adrodd bod unigolyn ifanc arall wedi ymosod yn gorfforol ac ar lafar arno, cofnodir bod cyngor diogelu wedi'i geisio a'i gael: 'i ymchwilio iddo ac i weithiwr cymdeithasol ymweld heddiw a phenderfynu a yw'n cyfiawnhau strategaeth ac ymchwiliad a.47 posibl'. Wrth fyfyrion a chan edrych yn ôl, dylai trafodaeth/cyfarfod strategaeth yn cynnwys yr heddlu fod wedi'i gynnal cyn unrhyw ymweliad 'ymchwiliol' (fel y cyfarwyddwyd gan reolwr diogelu). Byddai hyn wedi rhoi cyfle amlasiantaeth i fesur pryderon a chytuno ar ymateb cydgysylltiedig. Disodlodd ymweliad y gweithiwr cymdeithasol 'i ymchwilio' y drafodaeth/cyfarfod strategaeth ac arweiniodd at benderfyniad na ddylai fod wedi'i benderfynu y tu allan i'r gweithdrefnau diogelu. Mae gwneud penderfyniadau y gellir eu hamddiffyn yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniad i beidio â chymryd unrhyw gamau diogelu pellach gael ei hysbysu'n llawn, ei dystiolaethu, a'i gofnodi, a'i fwydo'n ôl i'r atgyfeiriwr. Gwnaethpwyd penderfyniad i beidio â rhoi gweithdrefnau diogelu ffurfiol ar waith, ac mae hwn yn un o lawer o achosion lle cafodd adroddiad gofalwr maeth Oedolyn Z ei dderbyn heb unrhyw gwestiwn na chwestiynu pellach.

Yn ogystal, mae tri digwyddiad hysbys yn ystod mis Mai i fis Awst 2017 lle'r oedd bobl ifanc heblaw'r rhai a leolwyd yn ffurfiol yn ymweld ac, yn achos dau ddigwyddiad, yn aros yn y lleoliad maeth. Yn ddiweddarach, ym mis Mehefin 2019, yn ystod sgwrs ffôn rhwng gofalwr maeth Oedolyn Z a gweithiwr cymdeithasol goruchwyllo, cyfeiriwyd at 'ymwelydd tramor' yn aros yn y tŷ. Nid hyn oedd ffocws y drafodaeth, ac nid yw'n ymddangos bod unrhyw gynllunio, ceisio caniatâd neu gydysniad wedi'i roi ar gyfer y trefniant hwn; nid oes unrhyw bwyntiau gweithredu wedi'u nodi. Nid yw'n hysbys a oedd hwn yn un digwyddiad, a oedd wedi digwydd o'r blaen, neu a oedd yn ddigwyddiad rheolaidd. Mae hyn yn dangos y darlun anghyflawn o ran pobl eraill sy'n ymweld a/neu'n aros yn y cartref, a'i bod yn ymddangos nad yw prosesau asesu risg wedi'u cynnal o ran llesiant plant a phobl ifanc yn y lleoliad.

Alcohol

Mae pryderon yn ymwneud ag yfed a defnyddio alcohol gan ofalwr maeth Oedolyn Z wedi'u nodi fel thema drwy gydol cyfnod llinell amser yr adolygiad, fel y mynegwyd gan un unigolyn ifanc ym mis Mehefin 2017 ar ddiwedd ei lleoliad (a ddogfennwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn).

Mae rhagor o wybodaeth yn llinell amser Plentyn Y yn ychwanegu cyd-destun pellach ac yn nodi bod gofalwr maeth Oedolyn Z wedi cofnodi yn ei gofnodion gofal maeth wythnosol ym mis Rhagfyr 2019 fod Plentyn Y wedi bod mewn parti ac wedi bod yn yfed alcohol. Nodir ail ddigwyddiad alcohol yn ystod mis Mawrth 2020 mewn parti arall. Mae'r defnydd o alcohol yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad o gam-drin, gyda chyfeiriadau at Plentyn Y a gofalwr maeth Oedolyn Z yn yfed alcohol, ac at ofalwr maeth Oedolyn Z yn helpu Plentyn Y i fynd i'r gwely ar rai achlysuron eraill.

Pryderon yn ymwneud â thechnoleg

Roedd llinellau amser yr adolygiad yn dangos tystiolaeth o ddigwyddiadau niferus a oedd yn peri pryder yn ymwneud â defnyddio technoleg yn y lleoliad, ac nid oedd yn ymddangos eu bod wedi cael eu cydnabod, eu harchwilio a/neu eu trin yn llawn o ran a oedd y bobl ifanc yn y lleoliad yn cael eu goruchwilio'n briodol yn eu defnydd o dechnoleg. Ymhellach, nodwyd bod gan ofalwr maeth Oedolyn Z angen hyfforddi heb ei ddiwallu mewn perthynas â TG, na chafodd ei ddiwallu, er gwaethaf pryderon yn ymwneud â thechnoleg a gododd ar fwy nag un achlysur ar draws llinellau amser yr adolygiad.

Digwyddiadau a oedd yn arwain at gyfranogiad yr heddlu

Roedd pedwar digwyddiad a arweiniodd at gyfranogiad yr heddlu. Ym mis Awst 2017, gwnaed galwad am 2am gan Blentyn X a Phlentyn Y i'r heddlu yn mynegi pryder am 'sŵn i lawr y grisiau'. Mae cyfeiriad at yr heddlu yn mynychu ac yn gadael, yn dilyn trafodaeth gyda gofalwr maeth Oedolyn Z. Roedd hwn yn ddigwyddiad rhyfedd iawn sydd dal heb gael ei esbonio'n iawn. Deallwyd yn glir o gofnod yr heddlu mai cartref gofalwr maeth oedd hwn; fodd bynnag, nid yw'n glir a arweiniodd y digwyddiad hwn at adroddiad gan yr heddlu i'r gwasanaethau plant, ac nid oes cofnod ychwaith bod yr awdurdod lleol wedi ymchwilio i'r digwyddiad hwn drwy gysylltu â'r heddlu.

Nid yw'n ymddangos bod yr awdurdod lleol wedi nodi'r digwyddiadau hyn ac wedi ymateb iddynt fel pryderon diogelu, nac ychwaith fel pryderon ynghylch addasrwydd unigolyn mewn swydd o ymddiriedaeth o dan weithdrefnau diogelu, nac ychwaith fel pryderon ynghylch 'addasrwydd parhaus i faethu' o dan y rheoliadau maethu.

Mae yna lawer o gofnodion gan amrywiaeth o ffynonellau ynghylch digwyddiad ym mis Medi 2017, o anghydfod corfforol yr adroddwyd amdano rhwng Plentyn X a Phlentyn Y, lle mynychodd yr heddlu yn dilyn galwad gan Blentyn X. Dywedodd gofalwr maeth Oedolyn Z fod yr heddlu o'r farn nad oedd y digwyddiad yn cyfiawnhau 'galwad allan' a'i fod wedi cyngori Plentyn X i gymryd ei feddyginiaeth. Mae gofalwr maeth Oedolyn Z yn gofyn i Blentyn X adael y lleoliad, gan nodi: 'Mae Plentyn X yn risg uchel nid yn unig iddo ef ond hefyd i'r ddau unigolyn ifanc arall yn ei gartref'; o ganlyniad, rhoddwyd Plentyn X mewn lleoliad maeth arall.

Nid yw'n ymddangos bod y digwyddiad hwn o wrthdaro corfforol rhwng dau unigolyn ifanc mewn lleoliad a oedd angen ymyrraeth gan yr heddlu wedi arwain at atgyfeiriad gan yr heddlu at y gwasanaethau plant, er ei fod wedi'i nodi'n glir fel lleoliad maeth. Nid oes tystiolaeth bod y gwasanaethau plant wedi cysylltu â'r heddlu i gael rhagor o wybodaeth neu eglurder am y

digwyddiad. Mae ffeil achos Plentyn X yn cynnwys cyfeiriad ato'n gwneud honiad yn erbyn gofalwr maeth Oedolyn Z, ond nid ymhelaethir ar hyn ymhellach. Mae hefyd yn nodi nad oes tystiolaeth y gofynnwyd i Blentyn X am yr hyn a ddigwyddodd y noson honno, nac yn wir am ei amser yn y lleoliad, tan y cyfweiliad ymadael ym mis Mai 2020, bron i dair blynedd yn ddiweddarach.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i'r digwyddiad gael ei ystyried o ran addasrwydd y lleoliad neu'r gofalwr maeth. Mae cyfeiriad at ofalwr maeth Oedolyn Z yn cwblhau 'Adroddiad Pryder Lefel Isel' mewn perthynas â'r digwyddiad hwn; nid yw statws y mecanwaith hwn yn glir, ac a roddwyd unrhyw ystyriaeth bellach i hyn hefyd. Ni chyfeirir at y digwyddiad hwn ac nid eir i'r afael ag ef yn adolygiad blynyddol nesaf o addasrwydd y gofalwr maeth ym mis Mai 2018.

Nodi ac ymateb i bryderon

Gall plentyn gael ei gam-drin, ei esgeuluso, neu fod yn destun mathau eraill o niwed gan unrhyw unigolyn (unigolion) ac mewn unrhyw leoliad. Nid yw cysyniadau diogelu ac amddiffyn ar wahân nac yn amherthnasol i blentyn sy'n derbyn gofal neu'n cael ei letya, nac i leoliadau gofal neu roddwr gofal amgen. Mae'n bosibl y bydd plentyn sy'n derbyn gofal neu sy'n cael ei letya ag angen gofal ac amddiffyniad, yn ogystal â gofal a chymorth, ar unrhyw adeg.

Mae'n bwysig egluro na dderbyniwyd unrhyw adroddiad o gam-drin neu niwed, na mynegiant o bryder bod gofalwr maeth Oedolyn Z yn peri risg uniongyrchol i blant neu bobl ifanc, o unrhyw ffynhonnell, gan gynnwys gan y rhai oedd yn gweithio gyda neu ochr yn ochr â gofalwr maeth Oedolyn Z.

Nid yw datganiadau o bryder am les a llesiant plant a phobl ifanc yn gyfyngedig i adroddiadau uniongyrchol o gam-drin, esgeulustod a/neu niwed mewn perthynas â phlentyn neu blant penodol. Mae continwmm hylifol sy'n ymestyn ac yn cwmpasu datganiadau o bryderon, cwynion, materion safon gofal a honiadau. Mae dogfen y Rhwydwaith Maethu, 'Honiadau, Pryderon a Chwynion' (2022), yn cynnwys diffiniadau defnyddiol yng nghyd-destun maethu, gan gynnwys 'cwyn', 'pryder', 'safonau gofal' a 'honiad'.

Rhaid i'r awdurdod lleol a'r gwasanaeth maethu gael polisiâu a gweithdrefnau sy'n gwahaniaethu rhwng yr agweddau hyn ac yn manylu ar yr ymateb priodol, boed o dan y prosesau cwynion a sylwadau; adrodd i gyrff rheoleiddio fel Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â safonau gofal; a/neu roi gweithdrefnau diogelu ar waith.

Mae angen arfer barn broffesiynol i feintioli lefel y pryder, niwed a/neu risg ac i benderfynu a yw pryder neu gwyn neu fater safon gofal yn gyfystyr â lefel uwch o bryder sy'n gofyn am ymateb gwahanol. Gall natur pryder neu gwyn neu groniad o bryderon neu gwynion a fynegwyd, o'u hystyried gyda'i gilydd, arwain at ystyriaeth o dan weithdrefnau diogelu a/neu addasrwydd i weithio gyda phlant.

Lle mae 'achos rhesymol i amau' bod 'plentyn yn profi neu mewn perygl o brofi cam-drin, esgeulustod, neu fathau eraill o niwed'²⁷ neu fod gan yr awdurdod lleol 'achos rhesymol i amau bod plentyn sy'n byw, neu'n cael ei ganfod, yn ei ardal yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol',²⁸ rhaid gweithredu gweithdrefnau diogelu. Nodir nad yw'n ymddangos bod y

²⁷ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a.130

²⁸ Deddf Plant 1989, a.47(1)(b)

gweithdrefnau hyn wedi'u hysgogi'n ffurfiol mewn ymateb i ddigwyddiadau a datganiadau o bryder yn yr achos hwn.

Mae cynlluniau gofal diogel plant unigol yn berthnasol yn hyn o beth.²⁹ Mae'r adolygwyr yn nodi cyfeiriadau at 'gynlluniau gofal diogel' ar ôl lleoli yn yr wybodaeth faethu a ddarparwyd i'r adolygiad; fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod cynlluniau gofal diogel unigol yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, na'u diwygio mewn ymateb i ddigwyddiadau a adroddwyd a phryderon a nodwyd.

Unigolyn mewn swydd o ymddiriedaeth

Mae ystyried pryderon diogelu sy'n ymwneud â gofalwr maeth fel 'oedolyn mewn swydd o ymddiriedaeth' yn thema allweddol yn yr adolygiad hwn. Rhaid dilyn y gweithdrefnau priodol pan honnir bod unigolyn sy'n gweithio gyda phlant: wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio / gall fod wedi niweidio plentyn, o bosibl wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn / sy'n effeithio ar blentyn, neu wedi ymddwyn tuag at blentyn mewn ffordd sy'n dangos ei fod yn anaddas i weithio gyda phlant, neu lle mae pryderon ynghylch ei addasrwydd parhaus i weithio gyda phlant. Rhaid hefyd adrodd am bryderon ynghylch aelod o gartref y gofalwr maeth.³⁰ Ar ôl derbyn adroddiad o bryder diogelu, bydd trafodaeth strategaeth yn cael ei chynnal i benderfynu a yw'r trothwy wedi'i gyrraedd ar gyfer cyfarfod strategaeth broffesiynol o dan adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru. Os yw'r trothwy wedi'i gyrraedd, bydd y swyddog dynodedig ar gyfer diogelu (fel y'i dirprwywyd gan swyddog dynodedig yr awdurdod lleol) yn galw'r cyfarfod strategaeth. O ran gofalwr maeth a chartref, nid yw penderfyniad i beidio â rhoi gweithdrefnau amddiffyn plant ar waith yn golygu na ddylai'r mater arwain at ystyried addasrwydd parhaus o dan y rheoliadau maethu, gan eu bod yn drothwyon gwahanol. Er gwaethaf y pryderon a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid oes tystiolaeth bod ystyriaeth wedi bod i weithredu'r gweithdrefnau unigolyn mewn swydd o ymddiriedaeth na'r gweithdrefnau 'addasrwydd parhaus'.

Ni phenderfynwyd a oes cofnod o gwynion a/neu bryderon blaenorol mewn perthynas â gofalwr maeth Oedolyn Z a/neu aelodau eraill o'r aelwyd faethu, gan gynnwys pobl ifanc a leolwyd. Mae hwn yn ofyniad rheoliadol³¹ sy'n sicrhau bod dyfarniadau proffesiynol ynghylch addasrwydd parhaus a 'pharu' lleoliadau yn gwbl wybodus ac yn gadarn.

Roedd yn amlwg o'r trafodaethau yn y digwyddiad dysgu bod cymheiriaid gofalwr maeth Oedolyn Z a'r gweithwyr proffesiynol y bu'n gweithio gyda ef yn uchel iawn eu parch ato; mynegodd gweithwyr proffesiynol ei fod wedi 'ennyn eu parch'. Bu Oedolyn Z yn ofalwr maeth profiadol dros nifer o flynyddoedd ac roedd yn ymwneud â pharatoi gofalwyr maeth.

Am y rheswm hwn, mae'n ymddangos bod y pwys a roddwyd ar adroddiadau'r gofalwr maeth ei hun ar adegau yn taflu ystyriaeth o brofiadau'r plant eu hunain yn y lleoliad i'r cysgod. Mae'n bosibl,

²⁹ Adams (CoramBAAF, 2021): 'Mae gofal mwy diogel yn ymwneud â chadw plant yn ddiogel mewn gofal maeth, ond mae'n ymwneud yn yr un modd ag amddiffyn gofalwyr maeth a'u teuluoedd rhag cwynion a honiadau ... dylai [cynlluniau gofal diogel] fodoli, dylid eu hadolygu'n rheolaidd, a dylid eu diweddarau lle bo angen. Fel isafswm, dylai hyn fod ym mhob adolygiad gofalwr maeth, ac ar ôl lleoli unrhyw blentyn yn y cartref maeth, gan ystyried unrhyw risgiau newydd a nodwyd a allai ddod yn sgil hyn.'

³⁰ Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, Rhan 4.3.2 (yn ystod llinell amser Plentyn X) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 7, Cod Ymarfer, Cyfrol 5 (para 60–64), a Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019, Adran 5, 'Honiadau/Pryderon Diogelu am Ymarferwyr ac Unigolion mewn Swyddi o Ymddiriedaeth' (llinell amser Plentyn Y).

³¹ Rheoliadau Maethu 2018, Rheoliad 20(4)

felly, bod statws sefydledig gofalwr maeth Oedolyn Z fel gofalwr maeth da y gellir ymddiried ynddo wedi ei ragflaenu ac wedi'i gwneud yn anodd i weithwyr proffesiynol nodi ac uwchgyfeirio meysydd o bryder.

Nid yw'n ymddangos bod y ffactorau risg yn y lleoliad, gan gynnwys anghenion gofal a chymorth cymhleth unigol a chyfunol y plant / pobl ifanc, wedi'u gwerthfawrogi'n llawn. Nid oedd yr wybodaeth/pryderon a oedd yn dod i'r amlwg am ddatblygiadau a materion yn ymwneud â'r lleoliad wedi sbarduno'r mesurau diogelu amlasiantaeth gofynnol a/neu asesiad cynnar o addasrwydd parhaus ac ystyriaeth ffurfiol gan y panel maethu, fel y byddai wedi'i ddisgwyl. Dim ond un o'r pryderon a gafodd ei gynnwys yn adolygiad mis Mai 2018 o addasrwydd a gyflwynwyd i'r panel adolygu maethu.

Goruchwyliaeth y gofalwr maeth

Er bod ymweliadau goruchwylio yn cael eu cynnal yn fisol yn gyffredinol, nid oeddent bob amser yn ymdrin â'r hyn a oedd yn digwydd i'r holl blant / unigolion ifanc a oedd wedi'u lleoli (gan gynnwys trefniadau ôl-18) ac roedd diffyg tystiolaeth o her gadarn. Roedd cofnodion yn dangos bod digon o gyfleoedd i archwilio'n fanwl gyda gofalwr maeth Oedolyn Z ei fersiwn ef o rai digwyddiadau a ddigwyddodd yn y lleoliad y cyfeirir atynt drwy gydol yr adroddiad hwn, yn enwedig mewn ymateb i rai o'r datganiadau a wnaed gan rai plant yn erbyn eraill; fodd bynnag, mae'n ymddangos y cafodd ei fersiwn ef ei dderbyn er gwaethaf y ffaith bod cyd-destun ehangach i rai o'r digwyddiadau.

Roedd dyddiaduron gofalwyr maeth yn cael eu cwblhau'n wythnosol, eu llofnodi, a'u rhannu â gweithiwr cymdeithasol Plentyn X, a oedd yn arfer da. Roedd y cofnodion hyn yn rhoi cyfleoedd i archwilio gweithredoedd a syniadau'r gofalwr maeth yn fanylach; mewn un cofnod, cyfeirir at Blentyn X fel un oedd "angen sylw" ac "yn ceisio cysur". Mae'n bosibl bod trafodaeth bellach ar hyn wedi llywio'r cynllunio gofal diogel y gwyddys ei fod yn angenrheidiol o fewn cyd-destun paru a risgiau a gwendidau posibl a oedd yn gysylltiedig â phobl ifanc eraill yn y lleoliad.

Nid oes tystiolaeth bod cofnodion sy'n adlewyrchu'r heriau o ofalu am dri phlentyn / unigolyn ifanc ag anghenion gofal a chymorth cymhleth yn cael eu dilyn gan ymweliadau a chamau gweithredu pellach. Nid yw'n ymddangos y cafodd gofalwr maeth Oedolyn Z ei annog i ddod yn fwy gwybodus am drawma yn ei ddull o ofalu.

Mewn perthynas â goruchwylio'r gofalwr maeth yn ystod amserlen Plentyn Y, cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol o addasrwydd o fewn yr amserlenni, ac fe'i hysbyswyd gan farn pobl ifanc yn y lleoliad, gan gynnwys Plentyn Y. Roedd hefyd yn cynnwys cyfeiriad at y ddau gynnig 'Pan Fydda i'n Barod' (un wedi'i gynnig), y rhoddwyd cymeradwyaeth Pennaeth y Gwasanaeth ar eu cyfer. Mae'n amlwg bod y trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' wedi'u sefydlu'n well yn ystod y cyfnod hwn nag yn ystod y llinell amser gynharach.

Fodd bynnag, dylai'r adolygiad blynyddol fod wedi ystyried manylion yr holl bobl ifanc y gofalir amdanynt yn ystod y cyfnod adolygu, gan gynnwys unrhyw newid arall yn aelodaeth yr aelwyd, yn ogystal ag ymwelwyr. Dylai cytundebau gofal mwy diogel unigol fod wedi bod ar ffeil a'u diweddarau i adlewyrchu datblygiadau hysbys, megis defnyddio alcohol a materion sensitif eraill a amlygwyd yn gynharach. Yn ogystal, dylai unrhyw gytundeb gan Benderfynwr yr Asiantaeth i 'newid telerau cymeradwyo' fod yn ysgrifenedig yn ogystal ag ar lafar, a dylai 'cynllun datblygu personol' gofalwr maeth gynnwys anghenion hyfforddi a nodwyd. Roedd yr angen am hyfforddiant TG ar gyfer gofalwr maeth Oedolyn Z, o ran ei lythrennedd TG ei hun ac o ran rheoli a monitro defnydd TG gan bobl

ifanc mewn lleoliadau, wedi bod yn angen a nodwyd dros gyfnod o nifer o flynyddoedd, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Adroddir bod goruchwyliaeth reolaidd trwy gydol cyfnod y llinell amser, gan gynnwys galwadau ffôn wythnosol oherwydd cyfyngiadau Covid-19 yn ystod y mis cyn yr adroddiad o gam-drin, gyda chofnodion dyddiadur wythnosol gan y gofalwr maeth yn llawn gwybodaeth.

Nid oes tystiolaeth, fodd bynnag, bod yr agweddau sensitif a nodwyd ar anghenion gofal a chymorth Plentyn Y, gan gynnwys y defnydd o alcohol, wedi cael eu hystyried yn ystod sesiynau goruchwyllo, ac nid oedd y cyfeiriad at ymwelydd tramor ychwaith. Mae angen i'r oruchwyliaeth fod yn chwilfrydig, yn ymholgar ac yn fyfyrion, gyda chymau gweithredu clir, a rhaid ailedrych ar ganlyniadau a chynnydd ym mhob sesiwn oruchwyllo.

Mae myfyrdodau drwy gydol yr adolygiad hwn wedi dod i'r casgliad pellach y bu angen hyfforddi heb ei nodi mewn perthynas â'r gofalwr maeth o ran diwallu rhai o anghenion unigol Plentyn Y. Ni welsom fod yr agwedd hon yn thema ganolog yn yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn lleihau pwysigrwydd a pherthnasedd y canfyddiadau hynny, ac mae'r asiantaeth wedi nodi gwersi i'w dysgu yn hyn o beth.

Rôl gofalwr maeth

Manylir ar rôl y gofalwr maeth yn y Cytundeb Gofalwr Maeth: 'darparu gofal a chymorth i blentyn sydd wedi'i leoli ... yn unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn ac mewn modd sy'n cynnal, amddiffyn a hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn'.³² Caiff y thema hon ei harchwilio isod gan ystyried llinellau amser Plentyn X a Phlentyn Y.

Mae cofnodion gofalwr maeth Oedolyn Z yn ffynhonnell ganolog a sylfaenol o wybodaeth ar gyfer y llinell amser. Ymddengys fod hyn yn adlewyrchu ei rôl ganolog yn 'rheoli' achos Plentyn X.

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod gofalwr maeth Oedolyn Z wedi bod â rheolaeth/arfer anghymesur o gyfrifoldeb a dylanwad rhiant dirprwyedig. Yn absenoldeb dogfen awdurdod dirprwyedig, ac fel gofalwr maeth heb unrhyw elfen o gyfrifoldeb rhiant ffurfiol, ymgwymerodd gofalwr maeth Oedolyn Z gryn dipyn o gyswllt a thrafodaeth gyda phersonél allweddol, y rhieni biolegol a'r ysgol. Byddai disgwyl hyn gan ofalwr maeth mewn perthynas â rheoli materion o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rôl a chylch gwaith gofalwr maeth Oedolyn Z yn ymestyn y tu hwnt i hyn ar adegau: wrth reoli a monitro rhaglen lleihau meddyginiaeth; wrth bennu gwobrau a chanlyniadau fel rhan o reoli ymddygiad, gan gynnwys atal sesiynau nofio a gwyliau ysgol; wrth ddal a rheoli arian y plentyn yn y cartref maeth; ac wrth ganiatáu i bartneriaid pobl ifanc yn y lleoliad i aros.

Mae'n bosibl bod ymestyn rôl gofalwr maeth Oedolyn Z wedi bod yn ymarferol i'r awdurdod lleol, yn enwedig yng nghyd-destun adnoddau cyfyngedig a gofalwr maeth parod a phrofiadol y canfyddir ei fod yn gymwys. Fodd bynnag, efallai fod mwy o oruchwyliaeth wedi amlygu'r angen i adlinio disgwyliadau. Arweiniodd rôl a chylch gwaith estynedig gofalwr maeth Oedolyn Z at niwlio ffiniau ac atebolrwydd cyfatebol, gan ei roi mewn sefyllfa ganfyddedig a gwirioneddol o reolaeth wrth drefnu meysydd allweddol. Byddai hyn yn rhwystr ychwanegol i adroddiad neu fynegiant o bryder gan blentyn / unigolyn ifanc, ac o ran ymarfer her broffesiynol. Unwaith y byddant wedi'u sefydlu, byddai'n anodd adfer y ffiniau hynny. Mae'n hysbys o wybodaeth gynharach yn yr adroddiad hwn

³² Rheoliadau Paneli Maethu 2018 yn Rheoliad 2 ac 11(2)(e) ac Atodlen 3

nad oedd gofalwr maeth Oedolyn Z bob amser yn derbyn cyngor ac arweiniad gweithwyr cymdeithasol ynghylch arferion gofal diogel a phobl ifanc eraill a ymwelodd â'r cartref.

Gellir amlygu 'cydymffurfedd cudd' fel 'y parodwydd ymddangosiadol i gydweithredu â chynlluniau y cytunwyd arnynt nad ydynt yn cael eu dilyn, ac fe'i defnyddir fel ffordd o gadw ymarferwyr o bell'.³³ Mae'n hysbys ei fod yn cael effaith erydu ar hyder ymarferwyr a'u gallu i herio:

'Ni ddylai gweithwyr proffesiynol dderbyn yn ddiamheuol ymddygiad, esgusodion neu sicrwydd bod gofalwyr wedi newid, neu y byddant yn newid, y ffordd y maent yn gofalu am blant'.³⁴

Yn ymarferol, mae hyn yn cael ei gymhwyso'n gyffredinol i rieni biolegol, ond mae'r un mor berthnasol i eraill, gan gynnwys gofalwyr maeth.

Os nad oes cyfle i fyfyrion ac yn absenoldeb goruchwyliaeth drylwyr neu ddull cyfaill beirniadol, gall y rhwystrau hyn ddod yn anhydraidd, ac arwain at amgylchedd sy'n agored i gael ei gamfanteisio, o ran y berthynas broffesiynol a phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu sy'n cael eu lletya.

Mae'n hysbys bod gofalwr maeth Oedolyn Z yn dal ac yn rheoli arian a roddwyd i Blentyn X gan ei riant. Nid oes unrhyw drafodaethau wedi'u cofnodi gyda'r gweithiwr cymdeithasol / gweithiwr cymdeithasol goruchwylion ynghylch y trefniadau ariannol hyn. Mae Rheoliadau Maethu 2018 yn cadarnhau pwysigrwydd gweithdrefnau clir i ddiogelu'r gofalwr maeth, a'r plentyn / unigolyn ifanc, rhag camdriniaeth ariannol.³⁵

Nid yw dull gofal gofalwr maeth Oedolyn Z yn adlewyrchu gofal wedi'i lywio gan drawma; dangosir hyn yn y penderfyniadau a wnaed gan ofalwr maeth Oedolyn Z i atal nofio a chanslo gwyliau ysgol Plentyn X. Mae gofalwr maeth Oedolyn Z yn ganolog yn y trefniadau ar gyfer y gwyliau ysgol arfaethedig; gofalwr maeth Oedolyn Z sy'n darparu'r ffurflenni caniatâd ar gyfer rhiant biolegol Plentyn X, ac mae Plentyn X yn adrodd i aelod o'r teulu bod gofalwr maeth Oedolyn Z yn talu am y gwyliau. Nid oes tystiolaeth bod y penderfyniad i wahardd Plentyn X o'r gwyliau yn benderfyniad ar y cyd, nac ychwaith y bu unrhyw drafodaeth gyda'r awdurdod lleol, rhiant corfforaethol Plentyn X. Dywedir bod gofalwr maeth Oedolyn Z wedi penderfynu na fydd Plentyn X yn mynd gan ei fod wedi methu â chwblhau digon o waith cartref. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn yn ystod cyfnod pan oedd Plentyn X yn profi llawer iawn o gythrwfl ac unigedd personol.

Roedd gan ofalwr maeth Oedolyn Z rôl ganolog hefyd ym mywyd Plentyn Y: wrth gefnogi cyswllt ag aelodau allweddol o'r teulu, a chyda materion profedigaeth a cholled; mynd â Phlentyn Y i weld prifysgolion; wrth ddarparu cludiant i bartïon ac oddi yno; a darparu clust i wrando ar bryderon personol, gan gynnwys perthnasoedd personol, iechyd meddwl, a dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Mae cofnodion iechyd yn nodi, yn ystod asesiad iechyd blynyddol plentyn sy'n derbyn gofal, fod Plentyn Y wedi cael cyngor iechyd arferol ac wedi'i gynghori i 'roi gwybod am unrhyw bryderon i [ofalwr maeth Oedolyn Z] neu feddyg teulu'. Er y nodir bod Plentyn Y wedi'i weld ar ei ben ei hun gan y gweithiwr iechyd proffesiynol, mae'n amlwg bod gofalwr maeth Oedolyn Z yn bresennol ar gyfer rhan o'r ymgynghoriad. Yng nghyd-destun yr adroddiad dilynol, mae'r agwedd hon yn haeddu

³³ Reder ac eraill, 1993 yn Cleaver a Rose, 2020, t.105

³⁴ Cleaver a Rose, 2020, t.104

³⁵ Rheoliad 45(2).

ystyriaeth bellach o sut i gydbwysu rôl ddilys gofalwyr maeth wrth hybu iechyd â'r angen i sicrhau bod paramedrau priodol yn cael eu gosod.

Yn ystod mis Hydref 2019, cafodd trefniadau ôl-18 oed Plentyn Y eu trafod a'u cadarnhau. Dywedir bod Plentyn Y yn ymddiried yn gofalwr maeth Oedolyn Z ynghylch ei berthnasoedd personol, ac mae gofalwr maeth Oedolyn Z yn ymwneud yn fawr â delio â Phlentyn Y a'i gefnogi mewn perthynas â materion teuluol hynod sensitif. Nodir bod Plentyn Y wedi rhannu gwybodaeth â gofalwr maeth Oedolyn Z am ei iechyd meddwl ac nad oedd Plentyn Y eisiau i'r wybodaeth hon gael ei rhannu gyda'r gweithiwr cymdeithasol rhag ofn y byddai hynny'n effeithio ar ei addysg a'i swydd, gan fod Plentyn Y eisiau 'bod yn llwyddiannus a chael swydd dda fel ei fod yn gallu gofalu am ei blant ei hun yn iawn'.

Mae dau gyfeiriad at ddefnydd Plentyn Y o alcohol, y ddau mewn partiön ffrindiau. Nodir bod gofalwr maeth Oedolyn Z yn darparu cludiant ac yn sicrhau bod Plentyn Y yn cyrraedd adref yn ddiogel. Roedd pryderon blaenorol ynghylch y defnydd o alcohol wedi'u mynegi gan unigolyn ifanc arall ym mis Mehefin 2017. Yn y misoedd cyn yr adroddiad o ymosodiad rhywiol, adroddir bod Plentyn Y yn yfed alcohol mewn partiön ffrindiau. Mae sicrhau diogelwch unigolyn ifanc yn gymhwysedd gofalwr maeth allweddol; darparodd gofalwr maeth Oedolyn Z gludiant a chaiff y digwyddiad ei gofnodi yn y cofnod gofalwr maeth wythnosol. Mae'r defnydd o alcohol yn nodwedd yn yr adroddiad o gam-drin, gyda chyfeiriadau at Plentyn Y a gofalwr maeth Oedolyn Z yn yfed alcohol, ac at ofalwr maeth Oedolyn Z yn helpu Plentyn Y i fynd i'r gwely ar rai achlysuron eraill.

Mae'r cynllun lleoli'n egluro sut y bydd y tasgau magu plant o ddydd i ddydd yn cael eu rhannu rhwng y gofalwr maeth a'r awdurdod lleol ac yn nodi o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid i'r gofalwr maeth gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod lleol neu'r rhiant.³⁶ O ran 'llety', mae'r rhieni biolegol yn cadw cyfrifoldeb rhiant unigol,³⁷ pan fo'r plentyn yn derbyn gofal o dan orchmynion, rhennir cyfrifoldeb rhiant rhwng y rhieni biolegol a'r awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol.³⁸ Waeth beth fo statws cyfreithiol y plentyn, nid oes gan y gofalwr maeth unrhyw gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Er mwyn sicrhau bod profiadau bywyd beunyddiol y plentyn mor normal â phosibl, mae elfennau o gyfrifoldeb rhiant yn cael eu dirprwyo drwy ddogfen awdurdod dirprwyedig. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw drefniadau o'r fath ar waith mewn perthynas â gofalwr maeth Oedolyn Z, er iddo chwarae rhan ganolog mewn nifer o faterion yn ymwneud â gofal Plentyn X a Phlentyn Y.

Yr adroddiadau o gam-drin

Mae'r plentyn sy'n cael ei letya neu'r plentyn sy'n derbyn gofal dan anfantais ddwbl, gan ei fod yn fwy agored i gael ei gam-drin, ei niweidio a'i esgeuluso, ac i'r gwrthwyneb yn llai tebygol o adrodd am gam-drin am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys teimladau gwrthdaro, enw da gofalwyr maeth, a phryder na fydd yn cael ei gredu.³⁹

Mae'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn argymhell y camau canlynol i leihau rhwystrau i adrodd: sicrhau y gwrandewir ar blant; darparu mynediad at oedolyn yr ymddiriedir ynddo y tu allan i'r lleoliad, gan gynnwys eiriolaeth annibynnol; meddu ar weithdrefnau cwyno a chwythu'r chwiban clir; a rhoi protocolau ar goll / absennol o'r cartref effeithiol ar waith.

³⁶ Rhan 6 Cod Ymarfer, paragraffau 241–261

³⁷ Adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

³⁸ Deddf Plant 1989, a.31, a.38

³⁹ Cleaver a Rose, 2020, t.65–66

Er i Blentyn Y adrodd yn brydlon ar ôl y digwyddiad o gam-drin, ni wnaeth Plentyn X adrodd am nifer o flynyddoedd. Bydd yr adran hon yn ystyried hwyluswyr a rhwystrau o ran rhoi gwybodaeth am gam-drin, trwy lens llinellau amser Plentyn X a Phlentyn Y a'u safbwyntiau a'u barn eu hunain.

Plentyn X

Gyda'i gilydd, roedd Plentyn X yn ymwneud â phedwar tîm gwaith cymdeithasol, chwe gweithiwr cymdeithasol a phum Swyddog Adolygu Annibynnol gwahanol. Yn ystod ei gyfarfod gyda'r adolygwyr, cadarnhaodd Plentyn X, er ei fod wedi datblygu perthnasoedd cadarnhaol ag ymarferwyr unigol a pharhau i ddod i gysylltiad â rhai, fod newidiadau mewn personél allweddol yn ei gwneud hi'n anodd datblygu perthnasoedd o ymddiriedaeth a gallu mynegi pryderon i oedolion yr oedd yn ymddiried ynddynt. Nid oedd Plentyn X yn teimlo y byddai rhywun yn gwrandao arno ac roedd yn ansicr ynghylch pwy oedd yr oedolion yr oedd yn ymddiried ynddynt.

Yn ystod apwyntiad clinig yr aeth Plentyn X iddo ar ôl i'r lleoliad ddod i ben, cyfeiriodd at yr anghydfod rhyngddo ef a Phlentyn Y ym mis Medi 2017. Er y nodir bod y digwyddiad wedi'i adrodd i'r heddlu ar y pryd, mae dadansoddiad y bwrdd iechyd yn nodi'r angen i driongli gwybodaeth a hybu chwilfrydedd proffesiynol, gan nad oedd yr wybodaeth hon wedi'i gwirio ymhellach ar y pryd.

Ar ôl i leoliad Plentyn X ddod i ben, cwynodd am boenau corfforol yn ei stumog. Yn ystod sesiwn gyswllt ym mis Tachwedd 2017, adroddodd Plentyn X am gŵyn feddygol arall, a allai fod wedi ysgogi pryder fel dangosydd posibl o gam-drin plant yn rhywiol. Dywedir nad oes unrhyw dystiolaeth ar ffeil bod hyn wedi cael ei archwilio ymhellach na'i rannu â gweithwyr iechyd proffesiynol.

Er nad yw'r amserlen adolygu ar gyfer Plentyn X yn cynnwys y datganiad o gam-drin a'r misoedd cyn hyn yn benodol, mae'n berthnasol ac yn briodol ystyried yr hyn sydd ar gael. Gwnaed y datganiad yn dilyn cyfres o episodau o fod 'ar goll o'r cartref / absenoldeb heb ganiatâd'; cyfanswm o chwe achos gwahanol dros gyfnod o ddeg mis cyn ei adroddiad. Nodwyd bod digwyddiadau 'ar goll o gartref' Plentyn X wedi bod yn newid ymddygiad sylweddol yn dilyn ei 'gyfweliad ymadael', a gynhaliwyd yn dilyn adroddiad Plentyn Y.

Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd protocolau sy'n cael eu cymhwyso'n gyson⁴⁰ ac mae'n arbennig o arwyddocaol wrth ystyried ymchwil mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol⁴¹ sy'n amlygu'r "effaith sosban frys" y gall pobl ifanc sy'n dymuno adrodd ond sy'n teimlo na allant wneud hynny, neu sy'n ansicr sut i wneud hynny, ei phrofi. Mae'n bwysig, felly, pwysleisio dysgu cynharach a nodwyd sy'n annog ystyried a allai sbardunau newydd fod yn sail i ymddygiad plentyn neu unigolyn ifanc.

Mewn perthynas â'r cyfweliadau ymadael, dywedodd Plentyn X fod cyfweliad untro nad oedd yr unigolyn ifanc wedi'i ysgogi yn annhebygol o arwain at rannu gwybodaeth sensitif o'r fath, yn enwedig os nad yw'r unigolyn ifanc wedi'i gredu mewn perthynas â phryderon blaenorol. Mae'r adroddiad hwn wedi nodi enghreifftiau o fewn llinell amser Plentyn X o'i adroddiadau am ddigwyddiadau na chawsant eu credu ac, yn benodol, bod adroddiadau gofalwr maeth Oedolyn Z wedi'u rhoi o flaen rhai ef.

⁴⁰ Rheoliadau Maethu 2018, Rheoliad 25, a Chanllaw Arfer Da Gweithdrefnau Diogelu Cymru, 'Ar Goll o Gartref neu Ofal'.

⁴¹ Gweler, er enghraifft, McElvaney, Greene, a Hogan (2012)

Awgrymodd Plentyn X y dylai hon fod wedi bod yn broses yn hytrach na chyfarfod untro, ac y byddai cyfarfodydd 'dilynol' a gwybodaeth am gymorth wedi bod yn ddefnyddiol. Argymhellodd Plentyn X y dylid defnyddio ap 'One (Mind of My Own)' (Gweithredu dros Blant) fel ffordd o hwyluso mynediad uniongyrchol at oedolion y gellir ymddiried ynddynt mewn ffordd ddiogel ac amserol, a theimlai y byddai'r mecanwaith hwn yn fwy effeithiol na dibynnu ar y plentyn i rannu pryderon yn ystod ymweliad gweithiwr cymdeithasol â chartref gofalwr maeth, a all fod yn destun y pryder. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd ymweliadau statudol a gweld y plentyn y tu allan i'r lleoliad, yn ogystal ag yn y cartref.

Gwnaed y datganiad ei hun y tu allan i oriau gwaith swyddfa ac, o ganlyniad, ni chafodd ei drin yn unol â'r amserlenni a nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae angen sicrhau bod y tîm dyletswydd argyfwng yn gallu ymateb i bryderon/adroddiadau amddiffyn plant a chydymffurfio â gweithdrefnau.

Ni fynychodd Plentyn X y llys gan ei fod wedi gallu rhoi ei dystiolaeth ar fideo ymlaen llaw; roedd hefyd wedi paratoi datganiad effaith bersonol. Roedd yn difaru nad oedd wedi cael 'ei ddiwrnod yn y llys' a byddai wedi gwerthfawrogi gallu rhannu ei 'ddatganiad effaith bersonol'. Deellir mai dim ond yn dilyn euogfarn y caiff y datganiad effaith bersonol ei ystyried yn ffurfiol.

Plentyn Y

Roedd gan blentyn Y grŵp cyfeillgarwch cefnogol, ac roedd wedi ceisio cyngor ganddo cyn gwneud y datganiad o gam-drin. Cadarnhaodd mai cyfuniad o'r amgylcheddau cefnogol hyn a'i alluogodd i adrodd: 'Siaradais â fy ffrindiau, a dywedasant wrthyf beth i'w wneud.' Er nad yw'n bosibl pennu beth allai fod wedi digwydd pe bai Plentyn Y wedi cael llai o gefnogaeth, byddai dim cymorth wedi'i wneud yn fwy agored i niwed, yn enwedig yng nghyd-destun cyfyngiadau Covid-19, a oedd newydd gael eu rhoi ar waith ac a gafodd eu hymestyn am gyfnodau sylweddol o amser.

Roedd gwasanaeth cwnsela a gofal bugeiliol ar gael yn y coleg. Datblygodd Plentyn Y berthynas gefnogol gyda'i diwtoriaid coleg, a rhoddodd wybod am yr ymosodiad i diwtor trwy alwad ffôn y diwrnod ar ôl y digwyddiad, er bod y coleg ar gau yn dechnegol oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ym mis Mawrth 2020. Mae hyn yn pwysleisio dysgu cynharach a amlygwyd mewn perthynas â phwysigrwydd sicrhau bod gan blant a phobl ifanc oedolion y maent yn ymddiried ynddynt, a'u bod yn teimlo y gallant droi atynt am gymorth, a nodwyd ar ddechrau'r adran hon fel ffordd allweddol o leihau rhwystrau i adrodd.⁴²

Yn dilyn yr alwad ffôn, aeth ei weithiwr cymdeithasol i'w gyfarfod. Dywedodd Plentyn Y fod ei brofiad o adrodd, er ei fod yn straen, wedi bod yn gadarnhaol gydag ymateb uniongyrchol a chadarnhaol, gyda chydymffurfedd effeithiol ac ymatebol â gweithdrefnau amddiffyn plant gan bob asiantaeth ar ôl adrodd. Roedd yr euogfarn lwyddiannus yn cymeradwyo a dilysu ei brofiadau o gam-drin a thrawma cysylltiedig.

Arferion da a nodwyd

- Ar adeg adroddiad Plentyn X, cymerwyd yr holl gamau gweithredu mewn modd amserol gan yr heddlu, a geisiodd ymgysylltu a meithrin perthynas â Phlentyn X, ac esbonio'r

⁴² Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

defnydd o broses 'Hawliau i Adolygu'r Cod Dioddefwyr',⁴³ a chafodd Phlentyn X ei gefnogi i apelio yn erbyn penderfyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron i beidio â mynd i'r llys.

- Ymdriniwyd ag adroddiad Plentyn Y yn unol â gweithdrefnau.
- Nodi anghenion cymorth yn gynnar o ran cymorth emosiynol a chydymffurfedd gweithdrefnol gan gydweithwyr ym maes addysg yn dilyn adroddiad Plentyn Y.

Adolygu safbwyntiau a myfyrdodau'r plant

- Roedd Plentyn X yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a roddwyd iddo gan yr heddlu cyn y treial a'r broses llys a gynhaliwyd yn 2021, ond byddai wedi gwerthfawrogi hyn ar ôl y treial hefyd, yn enwedig o ystyried y canlyniad.
- Mae Plentyn X eisiau i'r rhai sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc mewn gofal ofyn iddynt yn aml a ydynt yn iawn a gofyn dro ar ôl tro.
- Awgrymodd Plentyn X fod gweithwyr cymdeithasol yn 'cerdded a siarad' gyda phlentyn neu unigolyn ifanc, yn ogystal â siarad ag ef yn y lleoliad, pan fydd pobl eraill yn y cartref.
- Mae Plentyn X yn argymhell bod sefydliad fel 'Smash Life', a sefydlwyd gan unigolion sydd â phrofiad o ofal, yn darparu hyfforddiant i ymarferwyr.
- Eglurodd Plentyn Y ei fod wedi estyn allan at ei ffrindiau cyn gwneud yr adroddiad a'u bod wedi ei gynghori a'i gefnogi. Mae'n teimlo bod hyn yn amlygu pwysigrwydd hysbysu pobl ifanc yn gyffredinol am yr hyn sydd angen ei wneud.
- Teimlai Plentyn Y mai ei berthynas dda â staff y coleg a'i alluogodd i adrodd.

Dysgu

- Rhaid i ymarferwyr ddeall y rhwystrau sy'n atal plant rhag adrodd ac ystyried y ffyrdd y gellir eu lleihau.
- Gall ymddygiadau newydd a heriol fod yn arwydd o blant neu bobl ifanc yn mynegi trawma / yn dymuno rhannu rhywbeth ond yn teimlo na allant wneud hynny.
- Mae datblygu perthnasoedd ag oedolion y gellir ymddiried ynddynt yn allweddol er mwyn darparu llwybr i bobl ifanc deimlo'n ddiogel i wneud adroddiad, neu i rannu pryder.
- Pan fydd pobl ifanc yn teimlo nad oes neb yn gwrandao arnynt nac yn eu credu, gall hyn atal iddynt adrodd yn y dyfodol, yn ogystal ag ymddiriedaeth ehangach mewn gweithwyr proffesiynol fel pobl y gallant siarad â nhw am gefnogaeth.
- Nid yw 'cydymffurfedd cudd' yn gyfyngedig i rieni biolegol ac mae yr un mor berthnasol i grwpiau eraill, gan gynnwys gofalwyr maeth. Dylai ymarferwyr arfer 'chwilfrydedd proffesiynol' ym mhob maes o'u gwaith.

⁴³ Cod Ymarfer, Hawl 6.7

- Dylai mecanweithiau fod yn eu lle i sicrhau bod unrhyw gyswllt gan yr heddlu â gofalwr maeth a/neu aelwyd faethu yn arwain at adroddiad gan yr heddlu i'r awdurdod lleol.

Casgliadau

Gall fod angen gofal ac amddiffyniad ar blentyn sy'n derbyn gofal neu sy'n cael ei letya gan yr awdurdod lleol, yn ogystal â gofal a chymorth, ar unrhyw adeg. Mae'r ddyletswydd gyfreithiol o dan a.130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i roi gwybod am blentyn 'mewn perygl' yr un mor berthnasol i blentyn sy'n cael ei letya neu'n derbyn gofal ag y mae i unrhyw blentyn yn y boblogaeth gyffredinol.

Mae plentyn neu unigolyn ifanc sy'n cael ei letya neu sy'n derbyn gofal o dan anfantais ddwbl, gan ei fod yn fwy agored i gamdriniaeth, niwed ac esgeulustod ac, i'r gwrthwyneb, yn llai tebygol o adrodd am amrywiaeth o resymau (Cleaver a Rose, 2020, t.65–66). Yn ogystal, mae rhwystrau a nodwyd i ymarferwyr a sefydliadol nodi ac ymateb i risg, niwed, camdriniaeth neu esgeulustod (J Horwath, yn Calder (2015); Cleaver a Rose (2020); Adams (2016, gan ddyfynnu Munro, 2018, t.6)).

Mae adnabod cam-drin, niwed ac esgeulustod a rheoli ac ymateb i bryderon, cwynion ac adroddiadau yn erbyn gofalwyr maeth yn gofyn am farn broffesiynol fanwl gywir a chydbwysio llawer o newidynnau cymhleth yn ofalus, gan gynnwys y ddyletswydd i ddiogelu a hybu lles y plentyn ac, ar yr un pryd, i roi sylw dyledus i hawliau'r gofalwr maeth i gael ei drin yn broffesiynol, yn gyson ac yn deg.

Nid yw sefyllfa o ddim risg yn gyraeddadwy, ond gellir lleihau risgiau serch hynny. Pan roddir y canlynol ar waith, a hynny mewn modd sy'n glir, yn effeithiol ac yn gadarn, mae hyn yn creu amgylchedd mwy diogel sy'n hwyluso gwneud penderfyniadau amddiffynadwy a llawn gwybodaeth, ac yn sicrhau'n well bod pryderon yn cael eu hamlygu mewn modd amserol:

- cyfleoedd i glywed llais y plentyn a gweld y byd trwy brism y plentyn
- gweithdrefnau lleoli, asesu risg a pharu
- asesiadau o addasrwydd ac addasrwydd parhaus i faethu
- trefniadau monitro a goruchwyllo
- trefniadau cymorth a goruchwyllo (ar gyfer y gofalwr maeth a'r ymarferydd)
- gweithdrefnau diogelu ar gyfer nodi ac ymateb i bryderon a honiadau, gan gynnwys yn erbyn y rhai sydd mewn swydd o ymddiriedaeth

O ystyried llinell amser Plentyn Y ar ei phen ei hun, mae'r adolygwyr yn cydnabod datganiad Plentyn Y, 'Ni welodd neb hyn yn dod, roedd pawb yn ymddiried ynddo, yn doedden?', geiriau sy'n crisialu'r parch llwyr a roddwyd i ofalwr maeth Oedolyn Z. Roedd sylweddoli ffeithiau'r ymosodiad a'r euogfarn bron yn analluogi o ran ei effaith, ac arweiniodd at realiti ac ymdeimlad llethol ac absoliwt o frad. Yn ei droseddau yn erbyn unigolyn ifanc, camarweiniodd gofalwr maeth Oedolyn Z asiantaethau ac ymarferwyr, camarweiniodd ei gyd-ofalwyr maeth, ac, yn bwysicaf oll, bradychodd blant a phobl ifanc a oedd wedi'u rhoi i'w ofal. Roedd yr ymdeimlad hwn o frad yn amlwg yn y digwyddiadau dysgu ac yn ein cyfarfodydd gyda Phlentyn X a Phlentyn Y.

Ni ellid bod wedi rhagweld bod gofalwr maeth Oedolyn Z yn peri risg uniongyrchol i blant a phobl ifanc mewn lleoliad. Fodd bynnag, roedd y diffyg trylwyrredd a'r ystyriaeth ddiarnheul i ofalwr maeth

Oedolyn Z, ac ar brydiau diffyg cydymffurfio ag adolygu addasrwydd i faethu (y gofalwr maeth a'r cartref) a gweithdrefnau diogelu (a ddangoswyd yn ystod llinell amser Plentyn X), wedi galluogi amgylchedd a fyddai'n ffafriol i gamfanteisio ddatblygu. Pe bai'r elfennau hyn wedi'u cymhwyso'n fwy trwyadl a'u hystyried ochr yn ochr ag amharodrwydd hysbys gofalwr maeth Oedolyn Z i gymryd cyngor ac addasu dulliau gweithredu, cymhwysedd allweddol a ddisgwylir gan ofalwr maeth, mae'n debygol na fyddai gofalwr maeth Oedolyn Z wedi bod yn ofalwr maeth cofrestredig erbyn adeg datgeliad Plentyn Y yn 2020.

Pwrpas Adolygiad Ymarfer Plant yw amlygu gwersi i'w dysgu, nid i briodoli achos na beirniadaeth i ymarferwyr unigol. Mae edrych yn ôl yn cynnig golygfa freintiedig iawn i fyfyrion a dod i gasgliadau ohoni. Mae'n digwydd mewn man heb y galwadau a blaenoriaethau cystadleuol a'r heriau go iawn sy'n wynebu asiantaethau ac ymarferwyr unigol ar y pryd. Mae tuedd i danamcangyfrif yr heriau gweithredol ac o ran adnoddau sy'n wynebu'r asiantaeth a'r ymarferwyr ar y pryd, ac i oramcangyfrif y gallu i fod wedi lliniaru'r heriau hynny a gwneud rhywbeth yn wahanol. Mae'r adolygwyr wedi ymdrechu i wneud cyfiawnder â phawb sy'n gysylltiedig, gan gydnabod mai ein prif gyfrifoldeb yw'r unigolion dan sylw yn yr adolygiad hwn a nodi pwyntiau dysgu sefydliadol ac o safbwynt ymarfer.

Gwella systemau ac ymarfer

Er mwyn hyrwyddo'r hyn a ddysgwyd o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd Diogelu Plant a'i aelod-asiantaethau a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer gwella:-

Argymhellion ymarfer a sefydliadol

1. Gwasanaethau Maethu Powys i adolygu eu polisïau a'u prosesau o ran recriwtio, adolygu a goruchwylio gofalwyr maeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar ansawdd a chadernid:
 - goruchwylio gofalwyr maeth a chadw cofnodion
 - rheoli honiadau yn erbyn gofalwyr maeth
 - cynllunio lleoliadau a phrosesau paru, i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda gwybodaeth ac ystyriaeth lawn o anghenion y plentyn / unigolyn ifanc ac eraill yn y lleoliad, gyda mecanweithiau asesu risg cadarn, yn unol â'r telerau cymeradwyo, ac yn cynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol wrth wneud penderfyniadau
 - y broses adolygu blynyddol, gan gynnwys "addasrwydd parhaus", gan sicrhau bod hon yn ymgorffori fframwaith cadarn ar gyfer nodi, ystyried ac uwchgyfeirio unrhyw bryderon neu risg
2. Timau maethu i sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle mewn perthynas â chynlluniau gofal diogel unigol, cytundebau gofalwyr maeth a chytundebau awdurdod dirprwyedig o fewn cyd-destun deall egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a chysyniad o bwy sydd â chyfrifoldeb riant ac sy'n gallu rhoi cydsyniad ynghylch agweddau allweddol ar ofal plentyn.
3. Timau maethu i sicrhau bod mecanweithiau ar waith i hwyluso casglu lleisiau a safbwyntiau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fel rhan o oruchwylio lleoliadau ac adolygiadau blynyddol, gan gynnwys sianeli y gallant eu defnyddio i gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol dibynadwy, ac i chwilio am gyfleoedd i gryfhau hyn.
4. Gwasanaethau Dysgu a Datblygu Powys i adolygu cynnwys ac argaeledd yr hyfforddiant diogelu sydd ar gael i staff, gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion o dan grwpiau C a D y Safonau a Fframwaith Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant rôl benodol ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr gwasanaethau maethu Powys a'r panel maethu, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:
 - Sbardunau a throthwyon ar gyfer ymchwilaidau adran 47 (Deddf Plant 1989, Gweithdrefnau Diogelu Cymru), gan gynnwys cymhwyso'r gweithdrefnau hyn i blant sy'n derbyn gofal pan nodir pryderon diogelu
 - Honiadau/pryderon diogelu am ymarferwyr a'r rhai sydd mewn swyddi o ymddiriedaeth (adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru)
5. Yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol i adolygu gyda'i gilydd y meini prawf a'r trothwy ar gyfer atgyfeiriadau i rannu gwybodaeth rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â chartrefi maethu lle mae'r heddlu wedi mynychu digwyddiad.

Datganiad gan yr adolygydd (adolygwyr)			
ADOLYGYDD 1	Non Davies	ADOLYGYDD 2 (fel y bo'n briodol)	Cathy Richards
Datganiad o annibyniaeth ar yr achos <i>Datganiad cymhwyster i sicrhau ansawdd</i>		Datganiad o annibyniaeth ar yr achos <i>Datganiad cymhwyster i sicrhau ansawdd</i>	
Gwnaf y datganiad canlynol, cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:- <ul style="list-style-type: none"> Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos Nid wyf wedi cael unrhyw gysylltiad fel rheolwr llinell uniongyrchol â'r ymarferydd (ymarferwyr) cysylltiedig Mae gennyf y cymwysterau, gwybodaeth, profiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y cylch gorchwyl 		Gwnaf y datganiad canlynol, cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:- <ul style="list-style-type: none"> Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos Nid wyf wedi cael unrhyw gysylltiad fel rheolwr llinell uniongyrchol â'r ymarferydd (ymarferwyr) cysylltiedig Mae gennyf y cymwysterau, gwybodaeth, profiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y cylch gorchwyl 	
Adolygydd 1 (Llofnod)	<i>Non Davies</i>	Adolygydd 2 (Llofnod)	<i>Cathy Richards</i>
Enw Non Davies (Enw mewn llythrennau bras)		Enw Cathy Richards (Enw mewn llythrennau bras)	
Dyddiad 11/10/2024		Dyddiad 18/11/24	
Cadeirydd y panel adolygu (Llofnod)	<i>Mandy Nichols-Davies</i>		
Enw (Enw mewn llythrennau bras)	Mandy Nichols-Davies		
Dyddiad	19/11/2024		

Atodiad 1: Cylch gorchwyl

Proses adolygu ymarfer plant

I'w gynnwys yma yn gryno:

- *Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd Diogelu Plant a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y panel adolygu*
- *Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a'r gwasanaethau a fynychodd*
- *Roedd aelodau'r teulu wedi'u hysbysu, gofynnwyd am eu barn, a chafodd hon ei chynrychioli drwy gydol y digwyddiad dysgu, a darparwyd adborth iddynt*

Fel adolygwyr, rydym wedi elwa ar linellau amser cynhwysfawr ac wedi ystyried dadansoddiadau asiantaeth yn ofalus, a fu'n amhrisiadwy o ran cynorthwyo'r adolygwyr i lywio a deall swm sylweddol o wybodaeth a dogfennaeth gymhleth. Rydym hefyd wedi elwa ar waith craffu'r Panel Adolygu Ymarfer Plant, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r asiantaethau a ganlyn:

- Gwasanaethau plant yr awdurdod lleol
- Gwasanaethau maethu yr awdurdod lleol
- Gwasanaethau ieuchyd
- Addysg
- Yr heddlu

Digwyddiadau dysgu

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau dysgu yn ystod mis Tachwedd 2023, yn cynnwys diwrnod yr un ar gyfer ymarferwyr a oedd yn ymwneud â'r unigolyn ifanc perthnasol a thrydydd diwrnod i reolwyr. Hwyluswyd y digwyddiadau dysgu gan gadeirydd y Panel Adolygu Ymarfer Plant a'r cyd-adolygwyr, gyda chymorth gweinyddol gan Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a phersonél yr awdurdod lleol.

Daeth nifer dda iawn o gydweithwyr amlasiantaeth i'r sesiynau hyn a buont yn amhrisiadwy o ran darparu gwerth ychwanegol a llywio'r adolygiad. Hoffai'r cadeirydd, yr adolygwyr a'r panel ddiolch i'r rhai a oedd yn bresennol am fod yn agored ac am eu cyfraniadau a'u hymrwymiad i gyflawni'r canlyniadau dysgu. Rhoddodd y sesiynau gyfle i fyfyrion ar gwestiynau allweddol:

- Beth aeth yn dda, pa arferion da ydych chi wedi'u nodi?
- Beth ydych chi'n teimlo nad aeth yn dda, a oes meysydd sy'n peri pryder i chi?
- Beth ydych chi'n teimlo y gallai'r asiantaethau fod wedi'i wneud yn wahanol?
- Pa gamau ydych chi'n teimlo y mae angen i asiantaethau eu cymryd wrth symud ymlaen, i sicrhau bod unrhyw ddysgu yn llywio arfer yn y dyfodol?
- Unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?

Cyfranogiad y plant neu bobl ifanc yn yr adolygiad

Er gwaethaf yr heriau sy'n wynebu ymarferwyr ac asiantaethau, rydym wedi nodi elfennau o arfer da. Roeddem yn arbennig o galonogol yn ystod ein cyfarfod gyda Phlentyn X a Phlentyn

Y eu bod wedi datblygu perthynas gadarnhaol ag ymarferwyr allweddol, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda ar hyn o bryd. Gwnaeth eu hanhunanoldeb a'u dyheadau i gefnogi plant eraill sy'n cael eu lletya ac sy'n derbyn gofal argraff arnom ni; mae gan y ddau gyfraniadau anfesuradwy i'w gwneud. Mae hyn yn destament iddyn nhw a'r rhai sydd wedi eu cefnogi.

Fel adolygwyr, mae'r trefniadau gofalus ac ystyriol ar gyfer cynnwys Plentyn X a Phlentyn Y yn yr adolygiad hwn wedi creu argraff arnom, ac ar gyfer y cymorth bugeiliol a ddarparwyd iddynt cyn, yn ystod ac ar ôl ein cyfarfodydd.

Plentyn X

Nid oeddem yn gallu cyfarfod â Phlentyn X cyn y digwyddiadau dysgu. Yn ffodus, mynychodd ymarferwyr a oedd wedi gweithio'n agos ag ef, a gwnaethant bortread defnyddiol o Blentyn X, ei brofiadau, ei obeithion a'i ddyheadau, a'r heriau sy'n ei wynebu. Cynorthwyodd hyn yr adolygwyr i ddatblygu ymdeimlad o Blentyn X, ac o'i brofiadau fel unigolyn ifanc â phrofiad o ofal.

Roeddem yn hynod falch o allu cyfarfod â Phlentyn X ar ôl y digwyddiad dysgu. Mae cyfraniadau Plentyn X i'r adolygiad hwn wedi bod yn hynod werthfawr i'r adolygwyr, a hoffem ddiolch o galon i Blentyn X am gytuno i gwrdd â ni. Mae ei farn a'i safbwyntiau wedi'u casglu drwy'r adroddiad hwn ac fe'u defnyddir i lywio'n uniongyrchol agweddau ar ddysgu sy'n deillio o'r adolygiad hwn.

Mae Plentyn X bellach yn cael ei gefnogi gan ymarferwyr y mae wedi gweithio gyda nhw o'r blaen ac mae'n gwerthfawrogi hyn, gan ei fod yn byw'n annibynnol. Mae'n teimlo bod ganddo lawer i'w gynnig i blant a phobl ifanc mewn gofal, ac o ran hysbysu'r ffordd y mae pobl sy'n ymwneud â nhw yn eu gweld ac yn eu cefnogi. Mae'n gobeithio parhau i gyfrannu at y grŵp cyfranogi lleol.

Plentyn Y

Fe wnaethom gyfarfod â Phlentyn Y cyn y digwyddiad dysgu. Roedd hyn yn ddefnyddiol gan ein bod yn gallu rhannu ei adborth gyda'r rhai a oedd yn bresennol, ac roedd yn amlwg yn y digwyddiad dysgu bod ymarferwyr yn meddwl yn fawr ohono. Dywedodd Plentyn Y wrthym ei fod wedi datblygu perthynas waith agos ag ymarferwyr a oedd yn gweithio gydag ef, i'r graddau ei fod wedi gwahodd un i'w seremoni graddio. Mae'r perthnasau gwaith hyn yn dal yn eu lle.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Blentyn Y am gytuno i gwrdd â ni, ac rydym wedi casglu ei farn drwy gydol yr adroddiad mewn perthynas ag arfer da a'r hyn a ddysgwyd o'r broses adolygu. Nid oedd Plentyn Y yn teimlo bod modd rhagweld y canlyniad hwn, 'Ni welodd neb hwn yn dod, roedden nhw'n ymddiried ynddo.'Roedd wedi cael braw ac yn teimlo ei fod wedi'i fradychu gan yr ymosodiad, a holodd a oedd maethu yn 'fodd i gyrraedd nod' yn unig.

Roedd yn amlwg bod Plentyn Y yn gwerthfawrogi canlyniad y llys ac yn gweld hyn fel dilysiad o'i brofiad. Dywedodd ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi drwy gydol yr ymchwiliad a phroses y llys.

Mae Plentyn Y yn uchelgeisiol a dywedodd ei fod yn dymuno cael gyrfa lle gall fod yn eiriolwr dros blant a phobl ifanc mewn gofal.

Gwrthododd y teulu gymryd rhan

At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad y derbyniwyd yr wybodaeth

Dyddiad anfon llythyr cydnabod at gadeirydd y Bwrdd Diogelu Plant
.....

Dyddiad a ddsbarthwyd i arolygiaethau / arweinwyr polisi perthnasol.....

Asiantaethau	Do	Naddo	Rheswm
AGGCC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
AGC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Cwnstabiliaeth Ei Fawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

**Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig
CYSUR 6 2021 (Powys)**



- **Arweinydd Diogelu Enwebedig** – Stephanie Jones
- **Cadeirydd y Panel Adolygu** – Mandy Nichols-Davies
- **Adolygydd (Adolygwyr) Annibynnol** – Non Davies, Cathy Richards

Tasgau craidd:

- Penderfynu a yw penderfyniadau a chamau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a enwir a'r bwrdd.
- Archwilio effeithiolrwydd gweithio rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaeth ar gyfer pob plentyn a'u teuluoedd.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a gweithredoedd er lles gorau pob plentyn ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybod iddynt am agweddau allweddol o gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog sy'n ymwneud â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaeth ar gyfer ymarferwyr, a nodi'r adnoddau angenrheidiol.

Ar gyfer yr adolygiad estynedig hwn – yn ogystal â'r broses adolygu, rhoi sylw arbennig i'r canlynol:

- A oedd gwybodaeth neu hanes perthnasol blaenorol am bob plentyn a/neu aelodau o'r teulu yn hysbys ac yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau gan weithwyr proffesiynol mewn perthynas â phob plentyn, eu teuluoedd a'u hamgylchiadau. Sut cyfrannodd yr wybodaeth honno at y canlyniad i bob plentyn?
- A oedd cynlluniau XXXXXXXX yn gadarn, ac yn briodol ar gyfer pob plentyn a'u hamgylchiadau?
- Effeithiolrwydd cynllunio pontio.
- A gafodd unrhyw gynlluniau eu gweithredu, eu monitro a'u hadolygu'n effeithiol? A wnaeth pob asiantaeth gyfrannu'n briodol at ddatblygu a chyflawni'r cynlluniau amlasiantaeth?
- Pa agweddau ar y cynlluniau a weithiodd yn dda, beth na weithiodd yn dda, a pham? I ba raddau y cafodd asiantaethau eu dwyn i gyfrif am effeithiolrwydd y cynlluniau, gan gynnwys cynnydd yn erbyn canlyniadau cytûn ar gyfer pob plentyn.

- A gafodd y protocol ar gyfer datrys anghydfod ei ddefnyddio?
- A gyflawnwyd dyletswyddau statudol priodol asiantaethau sy'n gweithio gyda phob plentyn a theulu?
- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal yr asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill).

Tasgau penodol y panel adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygwyr i weithio gyda'r panel adolygu yn unol â chanllawiau wrth lunio adolygiadau estynedig.
- Cytuno ar amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, cynhyrchu llinellau amser a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau uniongyrchol a gymerwyd eisoes.
- Cwblhau gwybodaeth ychwanegol am adolygwyr annibynnol ac aelodaeth y panel.
- Cynhyrchu llinell amser gyfun, dadansoddiad cychwynnol a chanlyniadau dysgu ar gyfer pob plentyn.
- Cynllunio gyda'r adolygwyr ddigwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr, gan gynnwys nodi'r rhai sydd am fod yn bresennol a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn y digwyddiad ac ar ei ôl, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Gyda'r adolygwyr, cynllunio trefniadau cyswllt gyda'r unigolion ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried adroddiad drafft yr Adolygiad Ymarfer Plant i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni a bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Is-grŵp Adolygu Ymarfer i'w hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.
- Bydd aelodau'r panel adolygu yn cadw at egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 wrth drin gwybodaeth bersonol fel rhan o broses yr Adolygiad Ymarfer Plant (gweler yr adran ar rannu gwybodaeth a chyfrinachedd).

Tasgau penodol yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer:

- Cytuno a chymeradwyo'r cylch gorchwyl drafft ar gyfer pob achos a argymhellir ar gyfer adolygiad ymarfer plant / adolygiad ymarfer oedolion.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a

gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r bwrdd i'w hystyried a chytuno arnynt.

- Monitro cynlluniau gweithredu adolygiad ymarfer plant / adolygiad ymarfer oedolion i sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu gweithredu ar ran y bwrdd.

Tasgau Bwrdd Diogelu Plant CYSUR

- Bydd yr uned fusnes, ar ran y bwrdd, yn hysbysu Llywodraeth Cymru am gyflawni adolygiad ymarfer plant.
- Bydd yn cadw at amserlenni ar gyfer ei gwblhau, yn unol â'r canllawiau statudol.
- Yn cael adroddiad terfynol yr adolygiad ymarfer plant a'r cynllun gweithredu a'u cymeradwyo'n ffurfiol.
- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r bwrdd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth gan yr Is-grŵp Adolygu, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau gwasanaeth a ragwelir yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio cyhoeddi'r adroddiad ar wefan y bwrdd am o leiaf 12 wythnos ar ôl ei gwblhau.
- Cytuno i'w ddsbarthu i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd cadeirydd y bwrdd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau ac ymatebion cyhoeddus i ddi-ddordeb gan y cyfryngau mewn perthynas â'r adolygiad hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau.

Rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd

Rhaid egluro perchnogaeth yr holl wybodaeth a'r ddogfennaeth er mwyn cael y caniatâd priodol gan y sefydliad perthnasol cyn rhannu. Dim ond gwybodaeth y maent yn berchen arni neu sy'n deillio ohonynt y gall sefydliadau ei rhannu.

Dylai'r cyfrifoldeb am ofyn am wybodaeth gan bob sefydliad (gan gynnwys gan ddarparwyr annibynnol) gael ei egluro a'i gytuno gan y panel, fel y bo'n briodol.

Bydd datganiad cyfrinachedd (fel isod) yn cael ei lofnodi ym mhob cyfarfod o'r panel gan bawb sy'n bresennol i ailddatgan y ffiniau ar gyfer rhannu gwybodaeth:

- Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag Adolygiad Ymarfer Plant, mae pob asiantaeth wedi cytuno ar ffiniau cyfrinachedd. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny, ac fe'i cedwir o dan ddealltwriaeth a rennir, fel a ganlyn:
 - Cynhelir cyfarfodydd y panel o dan arweiniad '*Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.*
 - Ystyrir bod datgelu gwybodaeth y tu allan i'r panel y tu hwnt i'r hyn a gytunwyd yn y cyfarfod yn achos o dorri cyfrinachedd y testun ac o dorri cyfrinachedd yr

asiantaethau cysylltiedig.

- Os teimlir bod caniatâd i ddatgelu yn hanfodol, dylid ceisio caniatâd cychwynnol gan gadeirydd y panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r egwyddor 'angen gwybod'.
- Fodd bynnag, Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n bennaf gyfrifol am ddatgelu gwybodaeth i drydydd parti o'r panel amlasiantaeth a rhaid gwneud atgyfeiriad at reolwr busnes y bwrdd i gael awdurdod i ddatgelu.